

WEDI'I YRRU GAN
**FFYNIANT
— BRO —**

POWERED BY
**LEVELLING
— UP —**



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



LLANDYSUL

Arfarniad Ardal Gadwraeth

Mehefin 2025

Paratowyd ar gyfer

Cyngor Sir Ceredigion

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

Tabl Cynnwys

Arfarniad Ardal Gadwraeth Llandysul

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cyflwyniad i Ardal Gadwraeth Llandysul	5
3.	Deddfwriaeth, Polisi Cynllunio a Chanllawiau	7
4.	Diffiniad o Ddiddordeb Pensaerniol neu Hanesyddol Arbennig	10
5.	Cyd-destun Ffisegol	15
6.	Datblygiad Hanesyddol	16
7.	Dadansoddiad Gofodol	20
8.	Cymeriad Pensaerniol	23
9.	Aseidau Dynodedig ac Adeiladau Lleol Pwysig	29
10.	Cymdeithasau Hanesyddol	32
11.	Hanesion Cudd	33
12.	Bioamrywiaeth	35
13.	Materion — Dadansoddiad CGCB	39

Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Llandysul

1.	Cyflwyniad	40
2.	Cyfarwyddiadau Erthygl 4	40
3.	Adolygiad Ffin	44
4.	Yr Angen am Ganllawiau Dylunio Manwl neu Wybodaeth Cyhoeddus	45
5.	Cyfleoedd ar gyfer Rhestru Lleol	49
6.	Ystyried Gorfodi	51
7.	Cyfleoedd ar gyfer Adfywio a Gwelliannau Amgylcheddol	52
8.	Canllawiau Hysbysebu a Rheoli	57
9.	Adeiladau mewn Perygl	58
10.	Coed, Tirwedd a Mannau Agored	59
11.	Monitro ac Adolygu	62
	Atodiad A: Cynllun Gweithredu	63
	Atodiad B: Cyfeiriadau a Llyfryddiaeth	66

1. CYFLWYNIAD

1.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol yng Ngheredigion

- 1.1.1 Mae tirwedd Ceredigion â thystiolaeth gyfoethog o'r gorffennol. Mae'r term 'amgylchedd hanesyddol' yn disgrifio canlyniadau rhyngweithio dynol â'r amgylchedd naturiol dros filoedd lawer o flynyddoedd, gan gynnwys yr adeiladau, henebion, ardaloedd cadwraeth, trefluniau a thirweddau rydym yn eu gwerthfawrogi fel cymuned ac yn dymuno eu cadw. Bwriad y gyfres hon o arfarniadau a chynlluniau rheoli yw cynorthwyo'r Cyngor a'r gymuned leol / y cyhoedd i ddeall gwerth a diddordeb arbennig yr ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion, a'r ffordd orau o'u diogelu a'u gwella.
- 1.1.2 Mae llawer o nodweddion hanesyddol yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth a'r system gynllunio (gweler isod). Yn ogystal ag asedau dynodedig Ceredigion mae nifer o nodweddion heb eu dynodi gan gynnwys safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol. Gall asedau heb eu dynodi fod yn fwy agored i newidiadau anghydnaws neu golled trwy ddatblygu a gwaith arall. Yn ogystal â dadansoddi cyfraniad asedau dynodedig i drefi Ceredigion, gall cydnabod asedau heb eu dynodi, trwy ddulliau megis yr arfarniad hwn, helpu i nodi eu harwyddocâd a'u diogelu ar gyfer y dyfodol.



Ffig. 1 Golygfa o un o'r 'pyrth' i Landysul

Yng Nghymru, mae dros 200,000 o asedau treftadaeth heb eu dynodi yn cael eu cofnodi ar y pedwar Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol. Cofnodion sydd bellach yn ystyriaeth yn y system gynllunio o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

- 1.1.3 Mae 1896 o adeiladau ac adeileddau wedi'u cynnwys yn y 'Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig' yng Ngheredigion. Mae llawer mwy o adeileddau a adeiladwyd cyn 1948 wedi'u diogelu gan eu bod o fewn 'cwrtil' adeilad rhestredig. Mae adeilad rhestredig yn un sydd wedi cael ei nodi, gan Cadw, fel un o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol cenedlaethol. Oherwydd hynny, byddai angen caniatâd ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeiledd neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol – a elwir yn Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Yn groes i'r gred gyffredin, mae'r rhestriad yn cwmpasu'r adeilad cyfan – y tu mewn a'r tu allan, ac yn cynnwys unrhyw osodiadau neu ffitiadau.
- 1.1.4 Mae gan Geredigion 262 o Henebion Cofrestredig. Cofrestru yw'r ffordd y mae heneb neu safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith. Mae'r term 'heneb gofrestrdig' yn eang ei gwmpas ac yn cynnwys nid yn unig cestyll adnabyddus, abatai a safleoedd claddu cyn-hanesyddol, ond hefyd safleoedd megis odyrau calch, aneddiadau canoloesol amddifad ac olion y diwydiant haearn, glo a llechi. Mae rhai henebion cofrestredig yn cynnwys adeiladau sy'n sefyll neu adfeilion ac nid oes gan eraill olion gweladwy uwchben y ddaear, ond mae eu harcheoleg gladdedig o bwysigrwydd cenedlaethol. Nod cofrestru yw gwarchod y dystiolaeth archeolegol sydd wedi goroesi o fewn safleoedd a henebion. Mae hyn yn cynnwys ffabrig ffisegol yr heneb, ei lleoliad ac unrhyw arteffactau cysylltiedig a thystiolaeth amgylcheddol. Mae hyn yn golygu os ydych am wneud gwaith a fyddai'n newid heneb gofrestrdig yn ffisegol, mae'n debyg y bydd angen i chi wneud cais i Cadw am ganiatâd – a elwir yn Ganiatâd Heneb Gofrestredig.
- 1.1.5 Mae 12 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Ngheredigion. Mae cofrestru yn nodi parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig i Gymru. Maent yn amrywio o ran dyddiad o'r cyfnod canoloesol i ganol yr ugeinfed ganrif. Mae cofrestru yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio; rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried diddordeb hanesyddol y safle wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw newidiadau neu beidio.
- 1.1.6 Mae pedair ardal yng Ngheredigion wedi'u dynodi trwy'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf o'r rhain yw Tirwedd Hanesyddol Ucheldir Ceredigion sy'n gorchuddio llawer o rannau dwyreiniol a gogleddol y sir. Mae Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf wedi'i lleoli yn y de-orllewin, ac mae'n cael ei rhannu'n rhannol

â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae Tirweddau Hanesyddol Dyffryn Drefach-Felindre a Thywi wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, ond mae rhan ohonynt hefyd wedi'i lleoli o fewn ffin ddeheuol Ceredigion.

1.1.7 Mae gan Geredigion 13 o ardaloedd cadwraeth dynodedig hefyd, sy'n golygu bod rheolaethau ychwanegol ar gyfer dymchwel (sy'n gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth) a gwneud gwaith ar goed yn yr ardaloedd hyn. Yr ardaloedd cadwraeth yw:

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Adpar
- Aberteifi
- Llamedr Pont Steffan
- Llanbadarn Fawr
- Llandysul
- Cenarth
- Llanddewi Brefi
- Llanrhystud
- Llansantffraed
- New Quay
- Tregaron

O'r ardaloedd hyn mae gan Aberteifi, Llanddewi Brefi a Thregaron Gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn eu lle. Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn dileu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeilad, safle neu ardal benodol sy'n golygu bod mwy o gyfyngiadau o ran pa waith y gellir ei wneud heb fod angen caniatâd cynllunio. Mae coed mewn ardaloedd cadwraeth hefyd yn cael eu diogelu: rhaid rhoi 6 wythnos o rybudd i'r awdurdod lleol cyn gwneud gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth.



Ffig. 2 Yr ardal breswyl yn rhan ddeheuol yr ardal gadwraeth

1.2 Ardaloedd Gadwraeth

- 1.2.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol **gadw** neu **wella** cymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth dynodedig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol nodi a dynodi ardaloedd cadwraeth newydd trwy benderfynu pa rannau o'u hardal sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
- 1.2.2 Mae mwy na 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru ac maent yn cael eu gwerthfawrogi fel lleoedd arbennig gan y rhai sy'n ymweld â nhw ac yn byw neu'n gweithio yno.
- 1.2.3 Mae ardaloedd cadwraeth â thystiolaeth ffisegol gyfoethog o'r gorffennol. Mynegir eu diddordeb arbennig yng nghymeriad yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Gallai hyn fod yn batrwm yr anheddiad, trefn y gofod a'r lleiniau adeiladu a'r rhwydweithiau o lwybrau yn ogystal â'r arddull a'r math o adeiladau, eu deunyddiau a'u manylion.
- 1.2.4 Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

1.3 Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli

- 1.3.1 Mae adran 71 o Ddeddf 1990 yn nodi y bydd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw rannau o'i ardal sy'n ardaloedd cadwraeth. Mae Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn datgan mai arfarniadau ardaloedd cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer cynigion o'r fath gan eu bod yn darparu sail ar gyfer cynlluniau rheoli manylach.
- 1.3.2 Arfarniad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheolaeth gadarnhaol. Mae'n rhoi darlun manwl o'r hyn sy'n gwneud ardal yn arbennig a gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'r arfarniad yn cynnig cyd-ddealltwriaeth o gymeriad a phwysigrwydd, ac yn amlygu problemau a photensial, y gellir eu defnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllun rheoli manylach wedi'i ategu gan fframwaith polisi lleol cadarn.
- 1.3.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu The Griffiths Heritage Consultancy i baratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli, ochr yn ochr ag adolygu ffiniau, ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth mewn 6 o drefi'r sir.

1.3.4 Mae'r arfarniadau a'r cynlluniau rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel y nodir yn adran 4.5. Os cytunir arnynt, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus pellach, byddant yn cael eu mabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion fel canllawiau cynllunio atodol (CCA).

2. CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH LLANDYSUL

2.1 Statws Ardal Gadwraeth

2.1.1 Dynodwyd Llandysul yn ardal gadwraeth yn 1988. Ni fu unrhyw newidiadau i'w ffin, a ddangosir dros y dudalen.

2.1.2 Nid oes Arfarniad Ardal Gadwraeth neu Gynllun Rheoli cyfredol ar gyfer yr ardal gadwraeth.

2.2 Lleoliad a Safle


2.2.1 Lleolir Llandysul yn ne Ceredigion yn Nyffryn Teifi ar y ffin â Sir Gaerfyrddin. Mae'n 7 milltir i'r dwyrain o Gastellnewydd Emlyn, 19 milltir i'r dwyrain o Aberteifi ac 13 milltir i'r de-orllewin o Lanbedr Pont Steffan.

2.2.2 Saif Llandysul o fewn prydferthwch Dyffryn Teifi ac ar lan yr afon sydd i'r dwyrain o'r dref ac yn ffurfio ffin y sir. I'r gogledd ac i'r de mae'r afon ar ymyl ardal anheddiad y dref ond mae doleniad mawr yn amgáu'r caeau chwarae yn y canol.



Ffig. 3 Mae afon Teifi yn rhedeg i'r dwyrain o'r dref ac yn ffurfio ffin yr ardal gadwraeth yn rhannol

Ffig. 4 Ffin Ardal Gadwraeth Llandysul



Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council
 Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
 Ffôn/Tel. 01545 570881


Llandysul

Allwedd / Key
 Ardal Gadwraeth

Graddfa / Scale: 1:4,759
 Argraffwyd ar / Printed on: 2024-03-28

G N

© Hafren I Goron a hysbïau corffo deata 2024. Aroch Ordnans 10002419
 © Hysbïau corffo deata a hysbïau corffo deata 2024. Ordnans Survey 10002419
 © Local Government Information House. Limited copyright and database rights. 2024. 100024419
 © National Geographic Society. All rights reserved. 2013. Llandysul
 © National Geographic Society. All rights reserved. 2013. Llandysul



- 2.2.3 Mae Llandysul yn ddatblygiad hirgul yn bennaf ar hyd y B4624 gyda datblygiad ar derasau haenog i fyny'r llethr sy'n wynebu'r de-ddwyrain o benrhyn brig y mae Dyffryn Teifi wedi'i ffurfio o'i amgylch.

2.3 Disgrifiad Cryno

- 2.3.1 LMae Llandysul yn dref fach gyda chymeriad ac awyrgylch pentrefol. Mae datblygiad canol tref o safon o ganol a diwedd y 19eg ganrif yn adlewyrchu ei phwysigrwydd economaidd yn y cyfnod diwydiannol. Credir bod sylfaen y dref wedi'i lleoli yn y 6ed ganrif, gan ddechrau fel anheddiad Cristnogol cynnar. Mae tarddiad enw'r dref yn gysylltiedig â Sant Tysul, cefnder cyntaf Dewi Sant, nawddsant Cymru. Dim ond pentref oedd Llandysul ar ddechrau'r 19eg ganrif ond tyfodd i fod yn dref gyda thwf y diwydiant gwlân yng nghanol a diwedd y 19eg ganrif. Roedd agosrwydd glaswelltir ucheldir ar gyfer defaid a llif cyflym afon Teifi (ar gyfer gyrru melinau dŵr) yn ei gwneud yn ddelfrydol ar gyfer gweithgynhyrchu gwlân, a dyma oedd calon diwydiant gwlân Cymru. Agorodd y rheilffordd yma yn 1865 gan danio llwyddiant y dref ymhellach yn y cyfnod hwn.
- 2.3.2 Ar draws yr afon yn Sir Gaerfyrddin ac wedi'i gysylltu gan bont garreg mae'r gefeill-anheddiad Pont-Tyweli. Mae'r ddau anheddiad wedi tyfu'n gyd-ddibynnol ac maent yn dal i fod â chysylltiadau cryf heddiw.

3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU

3.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 3.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i *'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'*.
- 3.1.2 Cydnabyddir yn gyffredinol y gall yr amgylchedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau a chyfrannu at ansawdd bywyd a llesiant. Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn mynd i barhau i ddarparu ei fuddion cyfoethog i gymunedau mae angen nodi'r hyn sy'n arwyddocaol a rheoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy.
- 3.1.3 Mae rheoli newid mewn modd cadarnhaol ar sail dealltwriaeth lawn o gymeriad ac arwyddocâd yr ardal yn hanfodol i gynnal ansawdd arbennig ardal benodol (neu unrhyw ased treftadaeth). Ategir hyn gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r buddion y gallant eu darparu a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny.



Ffig. 5 Tyfodd Llandysul i fod yn dref lewyrchus yng nghanol a diwedd y 19eg ganrif

3.2 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

3.2.1 Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ('Deddf 2023') i rym ar 4 Tachwedd 2024 ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Diddymodd y ddeddfwriaeth ganlynol yng Nghymru:

- Deddf Adeiladau a Henebion Hanesyddol 1953
- Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

3.2.2 Mae Deddf 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol: roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw: yr adeilad rhestredig; gosodiad yr adeilad; ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd gan yr adeilad wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad.

3.2.3 Mae Deddf 2023 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol, wrth arfer swyddogaeth gynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno.

3.3 Polisi Cenedlaethol a Chanllawiau

- 3.3.1 Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (Rhifyn 12, 2024) yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi'r angen i hyrwyddo dylunio da.
- 3.3.2 Mae polisi ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gynnwys ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisiâu cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfer rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad ardal gadwraeth a/neu ei lleoliad wrth ystyried cynigion datblygu.
- 3.3.3 Mae *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn rhoi arweiniad ar sut i ystyried yr amgylchedd hanesyddol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio.
- 3.3.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cyhoeddiad (2011) *Cadw Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (Egwyddorion Cadwraeth) er mwyn sicrhau newid sensitif o ansawdd uchel. Mae'r ddogfen yn nodi chwe egwyddor arweiniol ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol:
- Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd
 - Mae deall pwysigrwydd asedau hanesyddol yn hollbwysig
 - Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir
 - Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol
 - Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson
 - Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt
- 3.3.5 Mae Cadw hefyd wedi cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau canllawiau arfer gorau sy'n ategu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a chynghor cynllunio cysylltiedig gan gefnogi'r rheolaeth gynaliadwy o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru; Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru; Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru; Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, a Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig*, ymysg eraill.
- 3.3.6 Mae cyhoeddiad *Cadw Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (2017) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24 ac yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisiâu lleol ar gyfer rheoli a gwella mewn ffordd gadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella.

3.4 Polisi Cynllunio Lleol

- 3.4.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDLI1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) yn nodi polisiau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Ngheredigion am y cyfnod o 15 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r CDLI newydd (CDLI2) wedi'i atal ar hyn o bryd oherwydd materion yn ymwneud â ffosffad ac felly CDLI1 yw'r Cynllun Datblygu cyfredol ar gyfer y sir.
- 3.4.2 Yn CDLI1, mae Polisi DM07 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau o fewn ardaloedd cadwraeth ddangos y rhoddwyd ystyriaeth i Arfarniadau Ardal Gadwraeth, lle maent ar gael, a chanllawiau cenedlaethol.
- 3.4.3 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio yn darparu canllawiau atodol ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol neu sy'n effeithio arno.

4. DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

4.1 Crynodeb o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig

EVIDENTIAL	HISTORICAL	AESTHETIC	COMMUNAL VALUES
MEDIUM	HIGH	MEDIUM	HIGH

4.1.1 Mae'r tabl hwn, ynghyd â'r esboniadau isod, yn crynhoi cyflwr yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd ac yn nodi'r diddordeb arbennig a ddylai gael ei gadw, a hefyd lle gellir gwneud gwelliannau. Nid yw gwerth 'uchel' yn golygu na ellir gwneud gwelliannau. Maent yn seiliedig ar yr ymchwil a'r asesiad ffisegol a hanesyddol a gynhaliwyd ar gyfer yr arfarniad hwn ac a ddefnyddir ar y cyd â chyhoeddiad Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (2011), sy'n nodi pedwar gwerth treftadaeth ar gyfer nodi arwyddocâd:

- **Gwerth tystiolaethol:** mae gan bob ased hanesyddol stori unigryw i'w hadrodd. Mae'r ffabrig a'r manylion hanesyddol sydd wedi goroesi — boed uwchben neu o dan y ddaear — yn ein helpu i ddeall pryd a sut y cafodd pob ased hanesyddol ei wneud, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut y mae wedi newid dros amser. Gall ffynonellau darluniadol a dogfennol wella ein dealltwriaeth hefyd.
- **Gwerth hanesyddol:** gall asedau hanesyddol daflu goleuni ar agweddau penodol ar y gorffennol. Gallant ein helpu i ddeall sut roedd pobl yn byw ac yn gweithio, a'r credoau

a'r gwerthoedd roddent yn eu coleddu. Gallant fod yn gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau nodedig. Trwy atgofio a chysylltu, gall asedau hanesyddol gysylltu pobl, agweddau ar fywyd a digwyddiadau o'r gorffennol â'r presennol.

- **Gwerth esthetig:** gallwn werthfawrogi asedau hanesyddol am eu nodweddion gweledol, p'un a ydynt yn deillio o ddylunio a chrefftwaith ymwybodol, neu o effaith ffodus newid dros amser. Mae chwaeth yn newid ac mae asedau hanesyddol yn newid hefyd: gall cofnodion cynharach a dadansoddiad gofalus o'r hyn sydd wedi goroesi helpu i werthfawrogi gwerth esthetig.
- **Gwerth cymunedol:** gall asedau hanesyddol gael eu coleddu gan y bobl a'r cymunedau sy'n gysylltiedig â nhw, a gallant chwarae rhan bwysig mewn profiad neu gof cyfunol. Gall asedau hanesyddol fod â gwerth economaidd yn ogystal â gwerth cymdeithasol gyda'r gallu i ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth.



Ffigurau 6 i 9 Mae amrywiaeth dda o fanylion pensaernïol yn Llandysul

4.2 Tystiolaethol – Arwyddocâd Canolig

- 4.2.1 Mae cerrig arysgrifedig canoloesol cynnar wedi cael eu canfod yn yr ardal sy'n dangos ei fod yn anheddiad cydnabyddedig yn ystod y cyfnod hwn. Fel safle anheddiad Cristnogol cynnar gall fod tystiolaeth hanesyddol a ffisegol o'r cyfnod pwysig hwn yn hanes Cymru.
- 4.2.2 Er bod gwreiddiau anheddiad Llandysul yn ganoloesol, ychydig iawn o dystiolaeth a ddarganfuwyd hyd yma o'r anheddiad canoloesol ac eithrio'r eglwys a chynllun rhywfaint o'r dref. Serch hynny, mae archeolegwyr o'r farn bod potensial uchel i ganfod gweddillion canoloesol.
- 4.2.3 Mae gwerth tystiolaethol cryf o ehangu a datblygu'r dref yn y cyfnod ôl-ganoloesol ac yn enwedig y 18fed a'r 19eg ganrif. Mae hyn yn cynnwys ehangiad diwydiannol a masnachol y dref yn ogystal ag ystod eang o eiddo preswyl.
- 4.2.4 Mae datblygiad y diwydiant gwlân yn y rhan hon o Gymru yn hynod bwysig yn hanesyddol a gallai Llandysul ddarparu tystiolaeth bellach o ddatblygiadau economaidd a chymdeithasol y cyfnod hwn.
- 4.2.5 Mae amrywiaeth dda o fanylion pensaernïol yn Llandysul a dylunio sy'n gysylltiedig â'r cyfnod ôl-ganoloesol a rhai o flaenau siopau gorau'r 19eg ganrif yn y wlad.

4.3 Hanesyddol – Arwyddocâd Uchel

- 4.3.1 Mae hanes cynnar yr anheddiad yn gysylltiedig â datblygiad yr eglwys Gristnogol yng Nghymru yn dangos bod gan Llandysul werth hanesyddol mewn cyd-destun cenedlaethol.



Ffig. 10 Mae Eglwys Sant Tysul wedi cadw ei hadeiladwaith canoloesol ac mae ganddi wreiddiau Cristnogol cynnar

4.3.2 O fod yn gartref i deulu Owain Glyndŵr a chefnogi ei wrthryfel, trwy'r Rhyfel Cartref, datblygiad llwybrau cyfathrebu a thrafnidiaeth hyd at y Chwyldro Diwydiannol, mae Llandysul wedi chwarae rhan fach o leiaf yn hanesyddol mewn llawer o ddigwyddiadau hanesyddol allweddol diwedd y cyfnod canoloesol a chyfnod ôl-ganoloesol Cymru.

4.3.3 Nid yw'r ddogfen hon yn astudiaeth hanesyddol ac mae'n cyfeirio at bigion hanes Llandysul yn unig. Mae ymchwil hanesyddol bellach, dwysach yn debygol o ddatgelu arwyddocâd ychwanegol yn ymwneud â'r cyfnod ôl-ganoloesol, ac mae potensial hanesyddol uchel.

4.4 Esthetig – Arwyddocâd Canolig

4.4.1 Mae lleoliad ffisegol Llandysul o fewn prydfferthwch Dyffryn Teifi a'i hagosrwydd at yr afon a datblygiad y dref ar benrhyn creigiog gyda haenau o ddatblygiadau ar ochr y bryn yn rhoi esthetig unigryw i'r dref.

4.4.2 Mae'r lleoliad gwledig a golygfeydd hir i'r dwyrain ac ar hyd y dyffryn yn arbennig o bwysig yn esthetig ac yn darparu lleoliad ehangach ar gyfer yr ardal gadwraeth.

4.4.3 Mae'r rhan fwyaf o gymeriad pensaernïol y dref yn dyddio o ddiwedd y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif. Mae hyn wedi'i wanhau gan ddatblygiadau a newidiadau mwy modern, serch hynny ceir esthetig pensaernïol trawiadol o'r cyfnod hwn.

4.4.4 Mae manylion pensaernïol yn amrywiol ac o ansawdd da ar y cyfan. Byddai'n hawdd gwella gwaith cynnal a chadw gwael a newidiadau diweddarach mewn rhai mannau yn y dyfodol.

4.4.5 Mae cynllun y dref ac yn arbennig y ffyrdd ar ei hyd ac o amgylch y bryn sydd wedi'u cysylltu gan lonydd bach yn arbennig o nodweddiadol o Landysul.

4.4.6 Mae gan Landysul gymeriad pentref gwledig gydag adeiladau ar raddfa fach yn bennaf. Mae datblygu yn gymharol ddwys ond mae darpariaeth dda o fannau agored hefyd yn enwedig ar gyrion datblygiadau.

4.5 Cymunol – Arwyddocâd Uchel

4.5.1 Yn hanesyddol rhaid bod yr anhawster i gael mynediad i Landysul wedi ei gwneud yn gymuned annibynnol a hunangynhaliol, ond mae ei chefnogaeth i achosion cenedlaethol megis ymgyrchoedd Owain Glyndŵr yn golygu ei fod yn ymwybodol o'r darlun gwleidyddol ehangach yng Nghymru. Dim ond yn y 18fed ganrif y dechreuodd ffyniant Llandysul mewn gwirionedd pan wellodd cyfathrebu ac roedd yn gallu rhyngweithio a masnachu'n hawdd â chymunedau ehangach.

4.5.2 Mae Llandysul yn dal i fod yn gymuned fach glos sydd i'w gweld yn falch o'i thref a'i threftadaeth. Mae llawer o grwpiau lleol sy'n gweithio'n galed i ddarparu gwasanaethau

lleol lle mae'r rhain wedi cael eu colli. O ddi-ddordeb arbennig yn hyn o beth mae perchnogaeth a rheolaeth y dref o'r ganolfan hamdden, y Parc Coffa a'r meysydd chwarae – ased cymunedol gwerthfawr.

- 4.5.3 Mae Cymdeithas Hanes Lleol Llandysul a'r Cylch yn grŵp lleol poblogaidd a gweithgar sy'n trefnu anerchiadau rheolaidd ac arddangosfa yn y Llyfrgell. Mae hefyd yn cynnal prosiectau hanes lleol, yn cynhyrchu cyhoeddiadau, ac mae wedi paratoi byrddau dehongli ar gyfer y dref.
- 4.5.4 Siopau annibynnol bach sydd yn Llandysul gyda fawr ddim o'r cadwyni cenedlaethol wedi cymryd drosodd fel y gwelir mewn trefi bach eraill yng Nghymru. Mae hyn yn helpu i sefydlu'r ymdeimlad o gymuned a darparu amrywiaeth bensaernïol trwy flaenau siopau ac arwyddion.
- 4.5.5 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys nifer o adeiladau cyhoeddus ac adnoddau cymunedol megis yr eglwys, llyfrgell, tafarndai, capeli, siopau, caffis, gwestai, ac adeiladau cymunedol ymysg eraill.



Ffig. 11 Mae gan adeiladau cyhoeddus fel y llyfrgell werth cymunedol uchel ac maent yn cyfrannu'n esthetig at yr amrywiaeth o bensaerniaeth yn y dref

- 4.5.6 Mae twristiaeth yn chwarae rhan fach yn economi Llandysul ond mae ganddo'r potensial i gynyddu ei werth cymunedol ar yr amod ei fod yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â nodau ac

uchelgeisiau'r gymuned leol. Mae Llandysul yn ganolfan gwasanaethau lleol yn bennaf ac ni ddylai twristiaeth effeithio'n negyddol ar ei chymeriad esthetig na'i chymeriad cyffredinol.

- 4.5.7 Roedd y digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus yn ceisio casglu gwybodaeth a barn rhanddeiliaid ar yr ardal gadwraeth. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad galw heibio ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn Llandysul yn ystod Ionawr 2024. Rhannwyd copiâu electronig o'r Cynllun Rheoli drafft â rhanddeiliaid. Mynychodd un deg saith o bobl y sesiwn galw heibio sy'n nifer uchel iawn ar gyfer cymuned fach. Derbyniwyd nifer dda o sylwadau sydd wedi cael eu defnyddio i adolygu'r arfarniad. Teimlai'r gymuned yn gryf fod treftadaeth ac adeiladau'r dref yn bwysig i'w chymeriad a hefyd y nodweddion naturiol megis yr afon, y coed a'r lleoliad gwledig. Nodwyd mai'r ardaloedd lle gellid gwneud gwelliannau oedd y parth cyhoeddus ac arwynebau strydoedd a phalmentydd. Mynegwyd diddordeb mewn defnyddio'r ardal a arferai fod yn gartref i Wasg Gomer fel plaza cyhoeddus neu sgwâr marchnad.

5. CYD-DESTUN FFISEGOL

5.1 Daeareg

- 5.1.1 Mae'r ddaeareg yn cynnwys cerrig llaid Ordofigaidd a Silwraidd, cerrig silt a thywodfeini sydd wedi'u mantellu'n helaeth gan ddyddodion Cwaternaidd o drwch amrywiol ond weithiau trwch sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys tywod a graean, cleiau llynnoedd rhewlifol, llifwaddod a mawn. Cafodd ceunentydd yr afon ar hyd afon Teifi, megis yng Nghilgerran, Henllan, Alltcavan, Llandysul a Llanllwni, eu llunio gan ddŵr tawdd rhewlifol ar draws esgeiriau wrth i lenni iâ doddi.

5.2 Cymeriad Tirwedd a Topograffeg

- 5.2.1 Saif Llandysul o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Teifi. Mae'r dyffryn hefyd yn Ardal Dirwedd Arbennig (Ffigur 32) sy'n wledig yn bennaf ac wedi'i hamgáu ar gyfer amaethyddiaeth gydag amrywiaeth eang o feintiau caeau ac ardaloedd â gwrychoedd trwchus yn amgáu porfeydd yn bennaf. Mae clystyrau o gaeau amgaeëdig, clyd yn cyferbynnu ag ardaloedd o dir agored wedi'i wella. Mae cwrs troellog afon Teifi sy'n rhedeg rhwng Llandysul a Chastellnewydd Emlyn yn cael ei amlygu gan sribedi rhychog a choediog a nifer o lednentydd bach, endoredig gyda choetiroedd ar lethrau serth. Nodwedd bwysig o dirwedd Dyffryn Teifi yw presenoldeb ceunentydd cul, wedi'u leinio â chreigiau, megis yr un yn Llandysul a manau eraill.
- 5.2.2 Tyfodd llawer o'r trefi bach ar hyd yr afon fel manau pontio neu amddiffynnol, fel grwpiau bach clos o adeiladau gydag eglwys neu gastell amlwg fel yn Llandysul neu Gastellnewydd

Emlyn. Mae'r prif ffordd yn dilyn gwaelod ochrau'r dyffryn, ychydig uwchben y gorlifdir – mae brigiadau craig yn nodweddiadol lle mae'r ffordd wedi cael ei cherfio trwy'r ceunentydd creigiog cul. Mae'r adeiladau cynharach yn syml o ran ffurf fel arfer – wedi'u hadeiladu o gerrig lleol a rendr gwyn neu liw â thoeau llechi. Mae adeiladau diweddarach yn dilyn arddulliau adeiladu'r cyfnod yn gyffredinol gyda manylion neu gymeriad lleol unigryw yn aml.

6. DATBLYGIAD HANESYDDOL

6.1 Mapiau hanesyddol

6.1.1 Dangosir Llandysul ar fap Saxton dyddiedig 1579 a map Speed dyddiedig 1610 ond heb unrhyw fanylion. Fe'i nodir yn syml fel anheddiad ag eglwys nodedig.

6.1.2 Erbyn Map Degwm y 1840au mae'n amlwg bod Llandysul yn anheddiad eithaf sylweddol wedi'i glystyru'n bennaf o amgylch yr eglwys gyda rhywfaint o ddatblygiad hirgul ar hyd y ffordd.



Ffig. 12 Dengys Map Degwm o'r 1840au anheddiad gweddol fawr o amgylch yr eglwys gydag ychydig o ddatblygiad hirgul ar hyd y ffordd

6.1.3 Dengys map

Arolwg Ordnans 1887/8 (drosodd) fod Llandysul wedi tyfu ymhellach erbyn diwedd y 19eg ganrif. Mae canol y dref yn debyg iawn i'r hyn a welir heddiw.

6.2 Cyn-hanesyddol

6.2.1 Mae nifer o arwyddion o weithgarwch cynhanesyddol cynharach yn yr ardal gyda'r rhai mwyaf lleol wedi'u cyfyngu i ddarganfyddiadau unigol o fflintiau neu arteffactau bach eraill. Mae meini hirion o'r Oes Efydd i'w gweld wedi'u gwasgaru o amgylch y caeau ond nid ydynt wedi eu hategu gan y dystiolaeth arferol o feddrodau neu henebion tebyg o'r cyfnod hwn. Mae clostiroedd a bryngaerau amddiffynedig y gwyddys amdanynt o'r Oes Haearn yn dangos gweithgarwch yn yr ardal sy'n debyg i'r gweithgarwch mewn ardaloedd eraill yng Ngorllewin Cymru



yn y cyfnod hwn.

Ffig. 13 Mae map Arolwg Ordnans 1887/8 yn dangos twf Llandysul ar ddiwedd y 19eg ganrif

6.3 Prydeinig-Rufeinig a'r Oesoedd Canol

- 6.3.1 Mae carreg Prydeinig-Rufeinig ag arni arysgrif brin i fenyw ('VELVOR FILIA BROHO') wedi cael ei osod ar wal ogleddol yr eglwys sy'n dangos bod rhywfaint o weithgarwch yn yr ardal yn y cyfnod hwn, er nad yw wedi gadael llawer o dystiolaeth arall. Mae carreg arysgrifedig arall o'r canoloesoedd cynnar, a ddarganfuwyd gerllaw, yn cael ei chadw yn yr eglwys.
- 6.3.2 Dengys ffynonellau fod yr anheddiad Cristnogol cynnar yn Llandysul wedi dechrau tua'r 6ed ganrif. Mae'n debyg mai dyma ddechrau'r anheddiad a welwn ni heddiw. Roedd hwn yn safle pwysig i'r eglwys Geltaidd gynnar gan y dywedir i Sant Tysul fod yn gefnder cyntaf ac yn un o gyfoedion Dewi Sant. Yn y 13eg ganrif cofnodwyd bod eglwys bwysig yma a chredir bod rhannau cynharaf yr eglwys bresennol yn dyddio o'r cyfnod hwn, ond mae'r rhan fwyaf o'r hyn a welwn heddiw hynach.
- 6.3.3 Mae Llandysul yn groesfan bwysig afon Teifi a datblygodd anheddiad o amgylch yr eglwys yn y cyfnod canoloesol. Mae peth o gynllun y lleiniau yn y dref yn awgrymu lleiniau bwrtais sy'n dangos bod y cynllun canoloesol i'w weld o hyd o fewn y graen datblygu.
- 6.3.4 Mae Lewis (1833) yn sôn am ffynonellau sy'n nodi bod nifer o frwydrau rhwng llwythau Cymru wedi cael eu hymladd yma yn y 12fed a'r 13eg ganrif.
- 6.3.5 Er gwaethaf ei dechreuadau a'i chynllun canoloesol nid oes unrhyw adeiladau canoloesol ar ôl yn y dref ac eithrio rhannau o'r eglwys a Ffynnon Tyssul, ffynnon sanctaidd ar gyrion gogleddol y dref.
- 6.3.6 Roedd gan Elen, mam arwr enwog Cymru, Owain Glyndŵr, stadau teuluol yn Iscoed a Gwinionydd ar hyd dyffryn Teifi, ac efallai fod Owain ei hun wedi cynnal llys yn Llandysul. Roedd gwŷr Llandysul ymhlith y cyntaf i ymuno ag Owain yn ei ymgyrch yn erbyn Harri IV yn 1400.

6.4 Y Cyfnod Ôl-ganoloesol

- 6.4.1 Yn ystod Rhyfel Cartref 1642-51 cafodd y bont ei ffrwydro gan y Brenhinwyr mewn ymgais i atal y Seneddwyr rhag croesi'r afon.
- 6.4.2 Un o adeiladau hynaf Llandysul yw Gwesty'r Porth a arferai gael ei alw'n Union Inn. Agorodd yn 1707 a chafodd ei henwi i ddathlu'r undeb rhwng Lloegr a'r Alban.
- 6.4.3 Yn hanesyddol, byddai Llandysul wedi bod yn anoddach ei chyrraedd ac felly'n fwy ynysig nag y mae heddiw. Adeiladwyd y prif ffyrdd sydd bellach yn cysylltu'r dref ag ardaloedd eraill

ynghanolbarth Cymru, yr A475 a'r A484, fel ffyrdd tyrpeg ar ddiwedd y 18fed ganrif. Mae'n sicr bod hyn wedi agor Llandysul i deithwyr a marchnadoedd newydd gan olygu bod yr anheddiad wedi ehangu yn y cyfnod hwn. Yn 1833 disgrifia Lewis fod y plwyf yn cynnwys 2724 o drigolion a bod Llandysul yn '*village, which is of considerable extent and of interesting appearance*'. Sonia hefyd am '*a venerable bridge over the Teivy, the tower of the church rising above the trees*' a sawl tŷ bonedd. Er gwaethaf natur hynafol y bont hon fe'i hailadeiladwyd yn 1837 gan James Hughes, Syrffŵr Sirol Aberteifi. Yn y cyfnod hwn cynhelid marchnad wythnosol a phum ffair flynyddol ac roedd o leiaf bedwar capel anghydfurfiol. Gellir gweld ei chynllun tua'r adeg hon ar Fap Degwm y 1840au (uchod).

6.4.4 Hwn oedd cyfnod y Chwyldro Diwydiannol ac mae hyn, ynghyd â'r mynediad ychwanegol a roddwyd gan y ffyrdd tyrpeg, yn egluro ehangiad Llandysul. Tyfodd diwydiant gwlân llewyrchus yn Nyffryn Teifi yn cyflogi miloedd o wehyddion, troellwyr, lliwwyr, gweuwyr, dilladwyr a theilwriaid. Roedd yr afon a'i llednentydd yn pweru dwsinau o felinau ac roedd defaid yn ffynnu yn y caeau cyfagos gan gyflenwi cnuoedd i'w gwneud yn gynhyrchion gwlân. Daeth yr ardal yn bwysig yn economaidd ac, wrth gwrs, fe ddilynodd ddatblygiad ac ehangiad. Ehangodd y dref yn gyflym gan ddarparu ar gyfer anghenion cymdeithasol, diwylliannol, ysbrydol ac economaidd y gweithwyr, ac mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau hŷn a welir yn y dref heddiw yn dyddio o'r cyfnod hwn o ffyniant.



Ffig. 14 Mae maint, cynllun ac agosrwydd cefn y Porth at yr afon yn awgrymu ei fod yn hen felin wlân

- 6.4.5 Roedd dyfodiad y rheilffordd yn 1865 i Bont-Tweli wedi agor mwy ar farchnadoedd ar gyfer y nwyddau a gynhyrchwyd yn yr ardal, gan ddod â deunyddiau a ffasiynau newydd ac ysgogi cyfnod arall o ehangu a datblygu.
- 6.4.6 Agorodd nifer o ysgolion yn ystod y cyfnod hwn yn dilyn sefydlu'r Ysgol Fwrdd wreiddiol yn 1838 a defnyddio tai preifat at ddibenion addysgol. Agorodd yr Ysgol Wladol yn 1851 a dechreuodd yr Ysgol Ramadeg gyntaf yn 1860 gan y Parchedig William Thomas (a adwaenid fel Gwilym Marles, hen Ewythr Dylan Thomas). Yn 1896 agorodd Ysgol Fwrdd newydd a gafodd ei newid yn ddiweddarach i fod yn Telynau Teifi, Canolfan Delynau Cymru.
- 6.4.7 Erbyn 1892 roedd John David Lewis, a oedd yn frwd dros lenyddiaeth, wedi sefydlu gwasg yma. Erbyn 1908 cafodd ei hadnabod fel Gwasg Gomer ac erbyn hyn dyma'r wasg Gymraeg fwyaf yn y wlad ac mae'n dal i weithredu, er ei bod ar gyrion y dref bellach.
- 6.4.8 Roedd afon Teifi wedi parhau (ac yn parhau) i fod yn bwysig i lwyddiant y dref gyda Phwerdy yn agor ym Mhont-Tyweli yn 1922. Roedd hwn yn cael ei bweru gan yr afon hefyd ac yn darparu trydan i'r ardal hyd nes iddi gael ei gysylltu â'r Grid Cenedlaethol yn 1955.

7. DADANSODDIAD GOFODOL

7.1 Ffurf a Chynllun

- 7.1.1 Mae'r afon a'i dyffryn wedi bod yn allweddol i ffurfio lleoliad a chynllun y dref ac yn rhan bwysig o'i lleoliad ehangach.
- 7.1.2 Ffurfiwyd yr anheddiad gwreiddiol o amgylch yr eglwys yn noleniad o'r afon ac mae'n debyg mai clwstwr o dai oedd yma. Fel y nodwyd uchod, mae trefniant y lleiniau bwrtais canoloesol i'w gweld o hyd o fewn cynllun y dref.
- 7.1.3 Sefydlwyd llwybrau a ffyrdd wrth i gysylltiadau wella a datblygodd y dref ar hyd y rhain ac i fyny ochr y penrhyn bryniog i'r gorllewin cyn belled ag y byddai ei serthrwydd yn caniatáu. Mae hyn wedi arwain at haenau terasog o ddatblygiadau yn ymddolennu o amgylch ochr y bryn gyda phob teras uwchben ac yn edrych dros y rhai isaf. Dim ond yn ddiweddar yr adeiladwyd ar y tir pori ar yr ucheldir.
- 7.1.4 Mae lein linellol y ffyrdd yn dilyn llethr y bryn ar hyd ymyl y gorlifdir. Yn ymuno â phob teras o ddatblygiad mae lonydd rhyng-gysylltu byr gyda golwg unigryw yn aml gan greu patrwm grid.
- 7.1.5 Mae'r mwyafrif o'r eiddo o ddiddordeb hanesyddol yn y dref yn dyddio o ddechrau neu ganol y 19eg ganrif. Mae adeiladau o ddiwedd y 19eg ganrif hefyd yn nodweddiadol ac mae rhai wedi goroesi o orffennol diwydiannol y dref megis hen warysau a melinau.

7.2 Ffiniau

- 7.2.1 Y ffin amlycaf yn amlwg yw afon Teifi a'i gorlifdir sydd wedi cyfyngu datblygiad i'r dwyrain, er y gwnaed ymdrechion trwy gydol hanes i bontio'r ffin hon a chysylltu'r anheddiad â'r tir ar yr ochr arall.
- 7.2.2 Roedd y brynau serth yn atal datblygiad ar y llethrau uchaf sy'n dal heb ei ddatblygu i raddau helaeth heddiw gan greu ffin bendant rhwng caeau a'r dref.
- 7.2.3 O fewn y dref mae'r rhan fwyaf o dai ac adeiladau yn agor i'r stryd – mae gan lai ohonynt erddi blaen bach. Serch hynny, mae waliau terfyn cerrig traddodiadol o fewn yr ardal sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad y pentref. Mae gan eiddo diweddarach esthetig mwy ffurfiol gyda waliau terfyn wedi'u gorchuddio â meini copa neu reiliau.

7.3 Golygfeydd a Ffyrdd Dynesu

- 7.3.1 Mae golygfeydd o'r tu allan i'r dref yn hynod gyfyng oherwydd topograffeg y dirwedd. Fodd bynnag mae golygfeydd trawiadol ar draws y dyffryn i gyfeiriad Llandysul o'r dwyrain, yn enwedig o Deras Morris.
- 7.3.2 Oherwydd cynllun topograffig y dref mae gan bob teras o ddatblygiad olygfeydd ar draws Dyffryn Teifi i'r dwyrain.



Ffig. 15 O fewn y dref mae golygfeydd hyd canolig yn arferol oherwydd bod y ffyrdd yn troi o amgylch y bryn. Mae hyn yn creu ymdeimlad o agosatrwydd ac yn ychwanegu at gymeriad y pentref

7.3.3 O fewn y dref mae'r rhan fwyaf o olygfeydd eraill yn ganolig i fyr ar hyd ffyrdd neu lonydd cefn gyda thro ysgafn y ffyrdd sydd wedi'u ffinio gan adeiladau ar y naill ochr a'r llall yn cyfyngu ar olygfeydd hwy.

7.4 Mannau Agored a Gwyrdd

7.4.1 Yn ogystal â'r amgylchedd hyfryd mae llawer o fannau gwyrdd hefyd o fewn y dref. Mae'r meysydd chwarae/chwaraeon, lle chwarae'r plant, mynwent Sant Tysul, llwybr cerdded coediog ar lan yr afon i'r de o'r dref a'r ardd fach i'r gogledd ar gyffordd y Stryd Fawr a Lôn Letty i'w nodi'n arbennig.

7.4.2 Cedwir y mannau hyn mewn cyflwr da. Mae seddau wedi cael eu darparu o fewn llwybr cerdded coediog ar lan yr afon i'r de a thra ei fod yn anwastad ac weithiau'n fwdlyd dan draed mae'n llwybr cerdded braf iawn sydd i'w weld yn boblogaidd gyda'r gymuned leol.

7.4.3 Mae gan y caeau chwarae a'r lle chwarae werth cymunedol arbennig o uchel oherwydd bod y gymuned leol wedi mabwysiadu ac yn rheoli'r cyfleusterau yma. Sefydlwyd y parc yn wreiddiol fel Parc Coffa wedi iddo gael ei agor yn 1932 i gofio am y dynion o'r dref a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf.



Ffig. 16 Llwybr cerdded coediog ar lan yr afon, un o'r mannau agored pwysig yn yr ardal gadwraeth

8. CYMERIAD PENSAERNÏOL

8.1 Traddodiadau, Deunyddiau a Manylion Adeiladu

8.1.1 Mae gan Landysul gymysgedd o bensaernïaeth arddull Sioraidd, Neo-Sioraidd a Fictoraidd yn bennaf. Mae'r rhan fwyaf o hwn yn ddomestig o ran arddull a graddfa ac yn amrywio o dai tref ffurfiol i fythynnod teras bach.

Mae hefyd adeiladau mwy gwerinol o fewn y dref. Mae'r cymysgedd hwn yn rhoi esthetig dymunol gyda chymeriad pentrefol.

8.1.2 Ymddengys fod y rhan fwyaf o eiddo domestig wedi'u hadeiladu o gerrig gyda rendr lliw a thoeau llechi naturiol. Yn aml mae'r rendr wedi cael ei dynnu oddi ar eiddo a adnewyddwyd gan ddangos y cerrig rwbel naturiol – mae strwythurau mwy gwerinol yn gerrig rwbel noeth yn aml.

8.1.3 Mae gan eiddo domestig raddau amrywiol o addurniadau pensaernïol. Ar y cyfan mae gan y tai statws uwch fwy o nodweddion addurnol. Yn gyffredinol, mae nodweddion pensaernïol yn cyd-fynd ag arddull bensaernïol yr eiddo, er enghraifft:

Arddulliau Sioraidd a Neo Sioraidd

- Ffenestri codi pren cwarel bach
- Architrafau ffenestri a meini clo
- Architrafau drysau a phortsys yn yr arddull glasurol
- Drysau wedi'u gosod yn uwch na'r palmant gyda stepiau
- Conglfeini
- Mowldinau capan
- Toeau talcennog
- Toeau llechi ar oledd isel
- Cyrn simnai mawr
- Drysau pren chwe phanel (lle maent wedi goroesi)
- Ffenestri linter neu oleuadau uwchben
- Mesuriadau clasurol a chymesuredd o ran graddfa a dyluniad
- Cerrig gyda rendr wedi'i baentio a manylion cyferbyniol
- Arddull unigol (tai drws nesaf / terasau yn debyg ond yn defnyddio manylion gwahanol)

Arddull Fictoraidd

- Rheiliau a gwaith haearn pensaernïol
- Ffenestri codi pren dwy dros ddwy

- Ffenestri bae
- Toeau llechi
- Rhai estyll tywydd pren addurnol a theils crib
- Arddull cyson ar hyd terasau
- Drws pren pedwar panel (lle maent wedi goroesi)
- Goleuadau uwchben
- Simneiau brics
- Yn gyffredinol mae gan fesuriadau gymhareb llai o led i uchder na thai Sioraidd
- Brics neu gerrig weithiau gyda phennau ffenestri cyferbyniol ac ati

8.1.4 Er gwaethaf hyn, gwelir achosion lle mae gan dai cynharach nodweddion diweddarach neu i'r gwrthwyneb, yn enwedig lle maent wedi'u disodli neu lle maent wedi'u hadeiladu ar drothwy newid arddull. Ymhlith y nodweddion eraill nad ydynt yn perthyn i unrhyw gyfnod penodol mae llechi crog, cymysgedd o wynebau talcen a ffasadau ochrol, enwau ffyrdd haearn bwrw, a stepiau cerrig llechi.



Ffig. 17 Mae arwyddion ffyrdd dwyieithog haearn bwrw wedi'u paentio yn atgyfnerthu cymeriad Cymreig Llandysul

8.1.5 Mae nifer o sefydliadau a safleoedd crefyddol yn y dref, pob un â'i gymeriad arbennig ei hun:

- Mae Eglwys Sant Tysul yn dyddio o'r 13eg ganrif ac mae'n debyg ei bod wedi'i lleoli ar safle Celtaidd cynharach. Dywedir bod to gwellt ar yr eglwys hyd 1783. Mae'r tŵr, sef yr unig ran ganoloesol o'r adeilad sydd ar ôl hefyd yn arddangos gwaith o'r 15fed ganrif. Yn festri'r eglwys mae llun o'r eglwys yn 1859 sy'n dangos to isel dros gorff yr eglwys a'r eil ddeheuol. Dywedir bod y gwaith adfer yn 1874 wedi cynnwys ailadeiladu'r gangell yn gyfan gwbl a chodi to corff yr eglwys. Mae'r eglwys yn cynnal plwyf mawr a allai gynrychioli olion plwyf llawer mwy, tra bod chwe chapel anwes yn awgrymu y gallai fod yn ganolfan bererindod. Mae'n Adeilad Rhestredig Gradd II*.



Ffig. 18 Capel Annibynwyr Seion



Ffig. 19 Capel y Bedyddwyr Ebenezer



Ffig. 20 Capel Tabernacl



Ffig. 21 Capel Undodaidd Capel-y-Graig



**Ffig. 22 Eglwys y Methodistiaid Peniel /
Clwb Ieuentid**



Ffig. 23 Porth yr Eglwys

- Mae Capel Annibynwyr Seion wedi ei leoli ar ochr y bryn uwchben canol y dref ar y ffordd i Gilfach. Fe'i hadeiladwyd rhwng 1870-1 ac fe'i cynlluniwyd gan y Parchedig Thomas Thomas, Glandŵr. Mae'n adeilad stwco gyda tho llechi ac mae ganddo ffasâd tridarn gyda philastrau a bwa canolog a thalcen pedimentog. Mae'n Adeilad Rhestredig Gradd II.
- Saif hen Gapel Ebenezer (y Bedyddwyr) tua hanner ffordd ar hyd Stryd y Brenin. Mae wedi'i adeiladu o gerrig rwbel gyda tho teils concrit a bondo pren a ddisodlwyd. Mae gan y ffasâd ochrol agoriadau â phennau bwa, dwy ffenestr ganol hir gyda'r gwydro cwarel bach gwreiddiol a dau ddrws allanol. Mae hefyd yn Adeilad Rhestredig Gradd II.
- Adeiladwyd Capel Tabernacl (y Methodistiaid Calфинаidd) yn 1832 a chafodd ei newid yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif. Mae ganddo ffasâd ochrol â blaen stwco gyda dwy ffenestr bwaog hir yn y canol a dau ddrws allanol bwaog gyda ffenestri oriel bwaog uwchben. I'r dwyrain mae hen dŷ capel cysylltiedig. Mae'r ddau yn Adeiladau Rhestredig Gradd II.
- Adeiladwyd Capel Undodaidd Capel-y-Graig yn 1884 ac fe'i cynlluniwyd gan John Wills o Derby. Ailadeiladwyd y capel yn 1906 yn yr arddull Gothig gyda thŵr un darn. Mae gan yr adeilad waliau cerrig â wyneb craig llanw gyda naddiadau cerrig Caerfaddon a thoeau llechi gyda gorffeniadau teracota ffansi ar y talcenni. Adeiladwyd festri ar wahân newydd yn 1929. Nid yw'n Adeilad Rhestredig.
- Adeiladwyd Capel y Methodistiaid Peniel yn 1808, cafodd ei ailadeiladu yn 1844 a 1867, ac yna ei newid yn 1902. Mae'r capel presennol, dyddiedig 1902, wedi ei adeiladu yn yr arddull Glasurol gyda mynedfa ar y talcen. Fe'i defnyddir bellach fel Clwb Ieuenctid ac mae'r talcen blaen wedi'i newid yn sylweddol. Nid yw'n Adeilad Rhestredig.
- Codwyd porth mynwent yr eglwys yn 1933 i nodi canmlwyddiant 'Calanhen' a gafodd ei adfer yn 1833 fel gŵyl Ysgol Sul. Mae'n adeiledd trawiadol o gerrig rwbel gyda thalcen ysgwyddog a'r talcen apig wedi'i gorbhelu â lansed bach a tho llechi. Mae ganddo fwa pedwar canol a giât bren gyda seddau oddi mewn. Mae'n Adeilad Rhestredig Gradd II.
- Mae'r fynwent ar gyfer Eglwys Sant Tysul yn siâp amlochrog / crwn yn yr argraffiad cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans sy'n nodi bod iddi wreiddiau cyn-Gristnogol. Ar hyn o bryd mae'n fan gwyrdd dymunol wrth ymyl yr afon ac yn darparu'r lleoliad uniongyrchol ar gyfer yr eglwys. Mae wedi'i hamgylchynu gan wal derfyn draddodiadol o gerrig rwbel gyda gatiâu haearn addurnedig.

8.1.6 Mae nifer fawr o unedau masnachol, cyn ddiwydiannol neu fanwerthu o fewn y dref. Yn gyffredinol, gellir gweld yr un nodweddion pensaernïol yn dibynnu ar y dyddiad adeiladu. Mae adeiladau diwydiannol hŷn yn tueddu i fod o arddull gwerinol gyda cherrig rwbel (gyda gwyngalch yn wreiddiol o bosibl) a nodweddion ymarferol wedi'u lleoli lle'r oedd eu hangen. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Y siop ger Carreg Llys ar Wesley Hill sy'n gyn warws Rhestredig Gradd II. Mae'n adeilad tri llawr gyda tho di-dor a drysau llwytho i bob llawr
- Mae maint, cynllun ac agosrwydd cefn y Porth at yr afon yn awgrymu ei fod yn hen felin wlân
- Rhif 5 Barley Mow, hen warws o ddechrau'r 19eg ganrif gyda ffenestri a drysau llwytho (sydd bellach wedi'i droi'n dai)
- Rhai adeiladau gwerinol iard gefn, hen warysau bach o bosibl

8.1.7 Ymysg y bensaernïaeth gynharach mae rhai adeiladau Edwardaidd da sydd wedi cadw nodweddion gwreiddiol yn aml megis ffenestri ac estyll tywydd, teils crib ac addurniadau mwy cywrain na'u cymdogion cynharach.



Ffigurau 24 a 25 Mae gan adeiladau Edwardaidd fanylion pensaernïol mwy addurnol yn aml



8.2 Strydlun a Blaenau Siopau

8.2.1 Mae Llandysul yn wedi bod yn adnabyddus am ei blaenau siopau hanesyddol da ac mae llawer o'r rhain yn Adeiladau Rhestredig. Mae rhai enghreifftiau da yn cynnwys:

- 1 Stryd y Gwynt – blaen siop gemydd lled llawn o ddiwedd y 19eg ganrif gyda phum golau a drws i'r dde. Mae gan y goleuadau a'r drysau bennau bwaog gwastad, mae'r

drws ychydig yn lletach gyda goleuadau uwchben a drysau dwbl cilfachog. Tri phier main gyda bracedi a ffasia o wydr â'r llythrennau aur 'Watchmaker E Davies Jeweller'. Y tu ôl i'r golau uwchben mae cloc sefydlog gyda'r geiriau 'John E Jones Watchmaker, Llandysul' ar y deial. Credir mai hwn yw'r blaen siop hanesyddol gorau yn Llandysul ac yn brin yng Ngorllewin Cymru.

- 3 Stryd Lincoln – ffenestr siop dda o'r 19eg ganrif gyda ffrâm sengl llydan pedwar cwarel mewn pren wedi'i hamgylchynu â bracedi o dan gornis
- Y siop sy'n ffinio â Charreg Llŷ ar Wesley Hill – ffenestr siop tair chwarel wedi'i hamgylchynu â phren gyda bracedau yn ystlysu ffasia a chornis
- 1 Heol y Bont – blaen siop o ddiwedd y 19eg ganrif. Drws canol rhwng dwy ffenestr siop fawr gyda thri golau gyda phennau bwaog Tuduraidd, pierau bob ochr i ffenestri siop yn cario bracedau i gwfl silff a drysau dwbl gyda goleuadau uwchben.

8.2.2 Mae blaenau siopau da eraill yn y dref ond mae rhai y gellid eu gwella tipyn. Mae'r materion i'w hystyried yn cynnwys: dyluniad cyffredinol; defnyddio darnau mawr o wydr di-dor; dim fframiau siop, pilastrau neu gornis; deunyddiau, ansawdd, maint a dyluniad gwael y ffasia ac yn y blaen. Mae'r blaenau siopau hyn o ansawdd gwael yn effeithio'n negyddol ar gymeriad a golwg cyffredinol yr ardal gadwraeth.



Ffig. 26 Gall blaenau siopau modern neu rai newydd ddefnyddio egwyddorion dylunio o flaenau siopau hanesyddol i wella'r strydlun

- 8.2.3 Mae gan ganol y dref gyflenwad da o ddodrefn stryd, yn enwedig meinciau, a chan fod y bryniau mor serth mae'n debyg eu bod yn nodwedd angenrheidiol er mwyn hwyluso hygyrchedd. Yn gyffredinol, mae'r rhain o ansawdd da mewn dyluniad haearn bwrw / pren traddodiadol. Mae bolardiau a rheiliau hefyd wedi'u dewis yn feddylgar ar y cyfan.
- 8.2.4 Mae rhai mân broblemau yn ymwneud â chynnal a chadw dodrefn stryd ac ardaloedd lle gellid eu gwella megis defnyddio bolardiau plastig newydd. Mae goleuadau stryd, yn arbennig, yn fodern ac yn ymwthiol a gellid eu disodli gyda dyluniadau mwy sensitif.
- 8.2.5 Mae amrywiaeth eang o ddeunyddiau palmant ar draws yr ardal gadwraeth, gan gynnwys palmantau concrit, tarmac, slab concrit ac ychydig o ardaloedd teils hanesyddol neu frics / coblau. Mae hon yn sicr yn nodwedd y gellid ei gwella.
- 8.2.6 Mae gordefnydd o linellau melyn dwbl ac arwyddion stryd mewn rhai mannau, rhywbeth y gellid ei wella a'i resymoli. Gellir gwneud llinellau melyn yn deneuach a gellid defnyddio lliw melyn llai llachar. Gallai cyfyngiadau parcio gael eu gosod ar adeiladau yn hytrach nag ar byst mewn rhai mannau neu eu symud.
- 8.2.7 Mae'r triongl croesi ar gyffordd Heol Newydd a Heol y Bont ger Tafarn Cilgwyn â dyluniad a deunyddiau gwael. Mae hyn yn darparu rhan o'r porth i ganol yr ardal gadwraeth ac nid yw'n adlewyrchu cymeriad na golwg gweddill y dref ar hyn o bryd.



Ffig. 27 Gall llinellau melyn dwbl fod yn fwy cynnil mewn ardaloedd cadwraeth. (Louth, Swydd Lincoln. Llun: Newyddion y BBC)

9. ASEDAU DYNODEDIG AC ADEILADAU LLEOL PWYSIG

9.1 Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig

- 9.1.1 Nid oes unrhyw henebion cofrestredig yn yr ardal gadwraeth.

9.1.2 Mae 24 o Adeiladau Rhestredig o fewn Ardal Gadwraeth Llandysul, un yn Adeilad Gradd II* (Eglwys Sant Tysul) a 23 yn Adeilad Gradd II. Dangosir y rhain ar y map trosodd.

9.2 Adeiladau o Ddiddordeb Lleol

9.2.1 Mae dwy lefel o adeiladau o ddiddordeb lleol – y rhai a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys ar restr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig lleol (gweler <https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/other-historic-assets/historic-assets-special-local-interest>), a'r rhai sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.

9.2.2 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Dylai'r meini prawf ar gyfer dewis asedau gael eu llunio gan yr awdurdod lleol ond gellir eu seilio ar ganllawiau Cadw. Dylai'r dewis hefyd fod yn seiliedig ar gyfranogiad cymunedol. Yna gall awdurdodau cynllunio ddatblygu polisiau i'w diogelu a'u gwella trwy bolisiau Cynllun Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

9.2.3 Mae adeiladau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg ardal gadwraeth yn aml yn adeiladau traddodiadol sydd â gwerth hanesyddol, pensaernïaeth neu fanylion o safon. Nid yw'n golygu nad ydynt wedi cael eu newid mewn rhyw ffordd neu nad oes lle i'w gwella, dim ond y byddai eu colli yn effeithio'n negyddol ar gymeriad neu olwg cyffredinol yr ardal ddynodedig. Ni ddylid edrych yn negyddol ar adeiladau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr gan fod cyfleoedd yn aml i wella adeilad neu strwythur neu adfer nodweddion. Gall peidio â'u cynnwys olygu bod sawl elfen o adeilad traddodiadol wedi'u colli neu fod ei gyfanrwydd wedi'i effeithio'n ddifrifol trwy newidiadau diweddarach. Ni ddylai peidio â'u cynnwys, ynddo'i hun, fod yn rheswm dros roi caniatâd i ddymchwel neu dros ganiatáu datblygiad, dyluniad, deunyddiau neu addasiadau o ansawdd gwael.

9.2.4 Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol o fewn Ardal Gadwraeth Llandysul wedi'u rhestru ond mae rhai adeiladau heb eu rhestru y dylid eu hystyried i'w cynnwys ar 'restr leol':

- Yr holl sefydliadau a safleoedd crefyddol heb eu rhestru a grybwyllwyd uchod (adran 8.1)
- Yr holl hen adeiladau diwydiannol gwerinol heb eu rhestru sy'n gysylltiedig â diwydiant gwllân Llandysul
- Unrhyw adeiladau sydd â blaenau siopau hanesyddol sydd heb eu rhestru

- Adeiladau neu strwythurau hanesyddol sydd wedi'u cynnwys ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

10. CYMDEITHASAU HANESYDDOL

10.1 Pobl

10.1.1 Sant Tysul oedd cefnder cyntaf ac un o gyfoedion Dewi Sant, nawddsant Cymru. Roedd yn ffigur allweddol yng Nghristnogaeth gynnar Cymru ac mae'n bosibl bod Llandysul yn fan pererindod. Roedd Sant Tysul yn ŵyr i Ceredig, y rheolwr a roddodd ei enw i'r deyrnas, sef Sir Ceredigion erbyn hyn. Cafodd ei eni tua 470 OC a bu farw yn 554 OC.

10.1.2 Dewiswyd Owain Glyndŵr yn Dywysog Cymru gan ei gefnogwyr yn 1400. Daeth ei hawl achyddol i'r teitl hwn o ochr ei dad (Gruffydd Fychan) o Deulu Brenhinol Powys, ac ochr ei fam o Deulu Brenhinol y Deheubarth. Mam Owain, Elen, a'i brodyr a chwirydd oedd yr aelodau olaf, annibynnol o Deulu Brenhinol y Deheubarth ac yn gallu olrhain eu hachau yn ôl i Hywel Dda. Roedd daliadau ystâd Elen wedi'u lleoli Llandysul a chredir fod Owain wedi cynnal llys yma o bosib. Yn sicr cafodd lawer o gefnogaeth wleidyddol gan y gymuned a oedd ymhlith y cyntaf i ymuno â'i ymgyrch yn erbyn Harri IV yn 1400.

10.1.3 Hen ewythr i Dylan Thomas oedd y Parchedig William Thomas (sy'n cael ei adnabod hefyd wrth ei enw barddol Gwilym Marles). Sefydlodd yr Ysgol Ramadeg yn Llandysul a bu'n ymgyrchydd Undodaidd gweithgar iawn yn cefnogi ffermwyr lleol mewn rhyfel degwm ac yn ymgyrchu ar ran y Blaid Ryddfrydol yn yr etholiadau Seneddol. Am y rheswm hwn cafodd ei droi allan o'i gapel er i'r nifer helaeth o'i gefnogwyr lwyddo i sicrhau bod capel newydd wedi cael ei adeiladu. Cyhoeddwyd ei gerddi yn 1859 ac ysgrifennodd emynau, straeon a nofel hefyd. Cyfieithodd weithiau llawer o feirdd enwog i'r Gymraeg. Dywedir mai fe oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer y cymeriad y Parchedig Eli Jenkins yn nrama Dylan, *Dan y Wenallt*.



Ffigurau 29 a 30 Bwthyn Myfyrgell, yr Ysgol Ramadeg gyntaf yn Llandysul

10.1.4 Sefydlwyd Capel Wesleaid Peniel tua 1806 gan y Parchedig Edward Jones a oedd yn pregethu ar y bloc ceffylau ger y Kings Head fel arfer. Un diwrnod cyhuddwyd ef o fod yn feddw, ac mewn atebiad arddododd yr adnod ganlynol ar ddiwedd y bregeth:

*They say where hills and valleys
wind, That I am drunk and out of
mind; I'll not deny I'm drunk and
odd
But only on sweet wine from the
cellar of God*

10.2 Traddodiadau

10.2.1 Dathlwyd Dydd Calan trwy chwarae'r gêm Cnapan (fersiwn Gymraeg gynnar o bêl-droed rygbi o bosibl a gafodd ei chwarae gyda thimau mawr iawn – cannoedd o bobl yn aml) ei chwarae rhwng eglwysi Llanwenog a Llandysul gan ddefnyddio'r pyrth fel goliau. Roedd y gêm sy'n dyddio o'r hen ryfel ac roedd y digwyddiad yn aml yn cynnwys cryn dipyn o yfed a llawer o ymladd heb unrhyw reolau go iawn. Cafodd ei chwarae gyda darn solet o bren wedi'i iro fel pêl. Erbyn dechrau'r 19eg ganrif roedd llawer o bobl wedi cael eu lladd neu eu hanafu yn ystod y gêm. Yn 1833 penderfynodd Ficer Llandysul ar y pryd nad oedd yn addas bellach i'r gêm gael ei chwarae rhwng y ddwy eglwys. Yn hytrach sefydlodd gystadleuaeth ysgrythurol rhwng y plwyfi lleol sydd yn parhau hyd heddiw.


10.2.2 Yr adeilad i'r gogledd o'r maes parcio (Gorsaf yr Heddlu, llyfrgell a chartref Cymdeithas Hanes Llandysul a'r Cylch) yw'r hen Ysgol Wladol a oedd yn cael ei rhedeg gan yr eglwys. Wedi'i hagor yn 1851 a'i chau tua 100 mlynedd yn ddiweddarach mae tŵr cloc diddorol ar ei ben sydd â wyneb cloc ar dri ochr yn unig. Mae hyn oherwydd bod perchnogion Ystâd Dôl-Llan, yr ochr arall i'r afon, wedi gwrthod rhoi unrhyw arian tuag at ei hadeiladu, felly penderfynodd y dref na fyddent yn cael gweld y cloc.

11. HANESION CUDD

11.1 Potensial Archeolegol

11.1.1 Ychydig o ymchwiliadau archeolegol sydd wedi bod yn y dref ond mae'r rhai a gynhaliwyd wedi rhagdybio bod potensial archeolegol uchel ar gyfer goroesiad olion canoloesol. Yn anffodus, roedd y rhai yr ymchwiliwyd iddynt yn y man lle roedd y tir wedi cael ei lefelu a'i derasu yn ddiweddarach gan ddileu unrhyw ddyddodion cynharach. Serch hynny, nodir mewn adroddiadau bod potensial o hyd ar gyfer dyddodion archeolegol sylweddol ger y dref ganoloesol.

Ffig. 31 Map yn dangos ffiniau'r ACA a'r SoDdGA yn Llandysul




Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council
 Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
 Ffôn/Tel. 01545 570881

Llandysul

- Allwedd / Key**
-  **Ardal Gadwraeth**
 -  **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig**
 -  **Safe o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**

Graddfa / Scale: 1:4,759
Argraffwyd ar / Printed on: 2024-03-28

G N 

© Hawffrwyf Geron a hawau cronw. ddata.2024. Arwng. Orlainns. 10024419
 © Crown copyright and database rights 2024. Ordnance Survey. 10024419
 © Local Government Information House Limited copyright and database rights 2024. 10024419
 © Geographing plc. 2000. I. ECOMI / Eusebio
 © British Topographical Survey. Ordnance Survey. 2014. Llandysul
 © British Topographical Survey. Ordnance Survey. 2009. 2013

0 100 200 m

11.1.2 Mae hanes diwydiannol yr ardal wedi gadael peth tystiolaeth archeolegol ac mae'n debygol y bydd tystiolaeth o dan y ddaear hefyd.

12. BIOAMRYWIAETH

12.1 Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

12.1.1 Mae afon Teifi wedi cael ei dynodi'n ACA afonol ac yn SoDdGA. Mae afon Teifi yn ddalgylch mawr o werth cadwraeth uchel. Y prif resymau dros ddewis y safle hwn yw'r nodweddion a phresenoldeb y rhywogaethau canlynol:

- Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda'r llystyfiant *Ranunculus fluitantis* a *Callitriche-Batrachion*
- Rhywogaethau: Lamprai'r nant *Lampetra planeri*
- Rhywogaethau: Lamprai'r afon *Lampetra fluviatilis*
- Rhywogaethau: Eog yr Iwerydd *Salmo salar*
- Rhywogaethau: Crothell *Cottus gobio*
- Rhywogaethau: Dyfrgi *Lutra lutra*
- Rhywogaethau: Llyriad-y-dŵr arnofiol *Luronium natans*

12.2 Seilwaith Gwyrdd


12.2.1 Mae ffurf adeiledig Llandysul yn gymharol drwchus ond mae'n dal i gadw cyfran gweddol uchel o fannau gwyrdd ac isadeiledd o fewn y dref, yn cynnwys yn bennaf gerddi preifat, y fynwent, y caeau chwarae, a'r lleoliad sy'n cynnwys caeau agored a golygfeydd ar draws y dyffryn.

12.2.2 Mae MapDataCymru (data 2018) yn dangos data Cyfoeth Naturiol Cymru ar Orchudd Coed Trefol. Mae'n dangos bod coed unigol ar y cyfan o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhan fwyaf ohonynt mewn gerddi pobl. Mae mwy o ddwysedd gorchudd coed o amgylch y caeau chwarae. Nid yw'r data hwn yn cynnwys y darn bach o goetir i'r gorllewin o'r bont na'r coetir ar y llethrau o amgylch y dref sy'n cyfrannu at ei lleoliad.



Ffig. 32 Mae golygfeydd ar draws y dyffryn i'r dwyrain yn rhan bwysig o leoliad a chymeriad yr ardal gadwraeth

Ffig. 33 Gorchudd Coed Trefol yn yr ardal gadwraeth a'r cyffiniau




Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council
 Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
 Ffôn/Tel. 01545 570881

Llandysul

- Allwedd / Key**
-  **Ardal Gadwraeth**
 -  **Gorchudd Coed Trefol 2018 (Coed Unigol)**
 -  **Gorchudd Coed Trefol 2018 (Grŵp o Goed)**


Graddfa / Scale: 1:4,759
Aigrafwyd ar / Printed on: 2024-03-28

G N

© Hewlenni y Sornn a hawau cwmra 2024. Arwng Chdians 10020419
 © Hewlenni y Sornn a hawau cwmra 2024. Arwng Chdians 10020419
 © Local Government Information House, Limited. copyright and database rights 2024. 10002419
 © Local Government Information House, Limited. copyright and database rights 2024. 10002419
 © Map Perspectives, Welsh Government, 2009-2013. Llywodraeth Cymru 2009-2013.



Ffig. 34 Mae Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Teifi yn darparu'r lleoliad ehangach ar gyfer yr ardal gadwraeth



Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council
 Ieudd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
 Ibaraeron, Ceredigion SA46 0PA
 fôn/Tei. 01545 570881

Llandysul

- Allwedd / Key
- Ardal Gadwraeth
 - Ardal oedd Tirwedd Arbennig
 - Ardal oedd Cymeriad Tirwedd (CNC)

Siraddfa / Scale: 1:4,759
 vgraffwyd ar / Printed on: 2024-03-28

G N

Heintant y Goron a hysbaidi cwrta ddata 2024 Ardal oedd Ordnans 100024419
 Howr copyright ari ddiarhaedd rffrwy 2024 Ardal oedd Ordnans 100024419
 Ordnans ari ddiarhaedd rffrwy 2024 Ardal oedd Ordnans 100024419
 Local Government Information House Limited copyright and database right 2024 100024419
 Ordnans ari ddiarhaedd rffrwy 2024 Ardal oedd Ordnans 100024419
 Ordnans ari ddiarhaedd rffrwy 2024 Ardal oedd Ordnans 100024419
 Ordnans ari ddiarhaedd rffrwy 2024 Ardal oedd Ordnans 100024419

0 100 200 m

13. MATERION – DADANSODDIAD CGCB

<p style="text-align: center;">CRYFDERAU</p> <p>Arwyddocâd hanesyddol Cristnogol cynnar Pensaernïaeth ôl-ganoloesol o safon Defnydd o ddeunyddiau traddodiadol lleol Gorchudd coed da a mannau gwyrdd da Lleoedd parcio yn agos i'r dref Lonydd cefn cul llawn cymeriad Afon Y Gymraeg, diwylliant Cymru a gweithgaredd- au cymunedol Lleoliad Tirwedd a thopograffeg Golygfeydd Cymuned Blaenau siopau hanesyddol da</p>	<p style="text-align: center;">GWENDIDAU</p> <p>Colli nodweddion pensaernïol gwreiddiol Rhaid blaenau siopau o ansawdd gwael Newid nodweddion terfyn traddodiadol a rhoi deunyddiau anhraddodiadol yn eu lle Gwaith cynnal a chadw wedi cronni Colli banciau Eiddo gwag allweddol Parcio ar y stryd Diffyg ymwybyddiaeth o hanes y dref Siopau gwag Modurdai / estyniadau i gefn eiddo Ysblander y gorffennol wedi pylu Topograffeg a mynediad Dim Pwynt Gwerthu Unigryw (USP) clir</p>
<p style="text-align: center;">CYFLEOEDD</p> <p>Defnydd, mynediad a golwg yr afon Gwybodaeth am y dref / marchnata / llwybr Cynigion manwerthu newydd Gweithgareddau awyr agored / twristiaeth gynaliadwy Diogelu neu ddisodli nodweddion pensaernïol gwreiddiol ar adeiladau nad ydynt yn rhestr- edig Cynyddu ymwybyddiaeth y gymuned ac ym- welwyr o hanes ac arwyddocâd Gwella golygfeydd cefn eiddo Gwella'r strydlun Gwella lonydd a mynediad Datblygu'r arlwy twristiaeth treftadaeth</p>	<p style="text-align: center;">BYGYTHIADAU</p> <p>Datblygu ac estyniadau newydd amhriodol Colli manylion a nodweddion pensaernïol gwreiddiol Colli gorchudd coed Colli mannau agored i ddatblygiadau Lleihad mewn twristiaeth a defnydd lleol o'r dref Cyfleusterau allweddol yn symud allan o'r dref Cystadleuaeth gyda threfi marchnad eraill a mwy o ganolfannau mawr Llifogydd</p>

WEDI'I YRRU GAN
**FFYNIANT
— BRO —**

POWERED BY
**LEVELLING
— UP —**



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



LLANDYSUL

Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Mehefin 2025

Paratowyd ar gyfer

Cyngor Sir Ceredigion

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwyniad i'r Cynllun Rheoli

- 1.1.1 Mae'r cynllun rheoli hwn yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr arfarniadau ac yn nodi ymatebion priodol sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ardal. Mae'r cynllun yn nodi amcanion rheoli realistig, gan ystyried adnoddau a chyfleoedd ariannu a pholisïau ar gyfer gwella.

2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4

2.1 Cyflwyniad i Gyfarwyddiadau Erthygl 4

- 2.1.1 Mynegir diddordeb arbennig ardaloedd cadwraeth yng nghymeriad a golwg yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.
- 2.1.2 Mae rheolaethau cynllunio ychwanegol y gellir eu cymhwyso i ardaloedd cadwraeth er mwyn diogelu'r elfennau hanesyddol a phensaernïol sy'n gwneud yr ardal yn arbennig. Gelwir y rheolaethau arbennig hyn yn Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Penderfynir arnynt gan bob awdurdod cynllunio lleol yn dibynnu ar ba elfen arbennig o'r ardal gadwraeth y maent am ei diogelu. Maent yn fwyaf tebygol o effeithio ar berchnogion sydd am wneud newidiadau i du allan eu hadeilad. Gall y rhain gynnwys cladin, newid drysau neu ffenestri, a gosod dysglau lloeren a phaneli solar.
- 2.1.3 Ni fwriedir i'r rheolaethau hyn atal newid; yn hytrach, maent yn annog datblygiadau sy'n gydnaws â'r ardal neu sy'n gwella ei chymeriad arbennig. Gellid defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i helpu i reoli newidiadau ar raddfa fach na fyddai'n cael fawr o effaith yn unigol, ond gyda'i gilydd gallent effeithio ar olwg neu gymeriad ardal gadwraeth.
- 2.1.4 Mae Erthyglau 4(1) a 4(2) o Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cyfarwyddiadau sy'n tynnu'n ôl rhai hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys rhai mathau o adeiladau neu ardaloedd penodol.
- 2.1.5 Gellir defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4(1) i dynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o dir ac adeiladau ond rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.
- 2.1.6 Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn gymwys i adeiladau ac adeileddau domestig, ond dim ond i'r rhannau hynny sy'n wynebu priffyrdd, dyfrffyrdd neu fannau agored. Gall awdurdodau lleol eu cadarnhau unwaith y bydd y cyfarwyddyd wedi'i hysbysebu'n lleol ac mae rhybudd wedi'i

gyflwyno i drigolion. Yn ogystal, gallai cyfarwyddiadau o'r fath fod yn gymwys hefyd i ddymchwel y cyfan neu ran o unrhyw giât, ffens, wal neu ddull arall o amgáu a allai fod yn gysylltiedig ag eiddo domestig neu beidio.

2.1.7 Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yw'r cyfarwyddyd a ddefnyddir amlaf ar gyfer rheoli o fewn ardaloedd cadwraeth. Fe'u cymhwysir yn aml mewn senario 'ffon ac abwyd', lle mae rheolaethau yn cael eu cymhwyso trwy'r system gynllunio a'r defnydd o Gyfarwyddyd ond mae cymhellion yn cael eu cymhwyso trwy system grantiau sy'n berthnasol i newid neu gynnal a chadw nodweddion traddodiadol.

2.1.8 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ac ati) (Diwygio) (Cymru) 2022 yn cynnwys newid i Gyfarwyddiadau Erthygl 4, ond ar y dyddiad ysgrifennu nid yw hyn wedi dod i rym eto. Mae'r newid hwn yn dileu Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) ac yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud Cyfarwyddiadau heb droi at Weinidogion Llywodraeth Cymru. Felly, bydd dau fath o Gyfarwyddyd a'r ddau yn cael eu cyflwyno o dan Erthygl 4(1) o'r Gorchymyn:

- **Cyfarwyddyd Uniongyrchol** pan fydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl ar unwaith ac yna'n cael eu cadarnhau gan yr ACLI yn dilyn ymgynghoriad;
- **Cyfarwyddyd Anuniongyrchol** lle mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad gan yr ACLI.



Ffig. 35 Bwthyn traddodiadol gyda ffenestri, drws, rendr concrit, teils to ffibr a stepiau concrit newydd



Ffig. 36 Bwthyn traddodiadol gyda ffenestri gwreiddiol, to llechi, stepiau llechi a drws newydd mewn arddull draddodiadol

2.2 Llandysul

- 2.2.1 Nid oes gan Landysul Gyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei le ar hyn o bryd.
- 2.2.2 Mae gan Landysul ddau brif gyfnod / arddull pensaernïol, bythynnod gwerinol cynharach o'r 19eg ganrif yn bennaf, a'r datblygiadau Fictoraidd a Sioraidd cynharach statws uwch.
- 2.2.3 Mae'r mwyafrif o'r bythynnod gwerinol wedi colli eu ffenestri a'u drysau gwreiddiol ac mae llawer wedi'u gorchuddio â rendr concrit modern er eu bod, yn gyffredinol, wedi cadw eu simneiau a'u maint cyffredinol. Lle mae enghreifftiau o ffenestri a drysau traddodiadol yn dal i fodoli mae'r rhain yn ategu'r bensaerniaeth werinol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Mae ffenestri, drysau, deunyddiau ac addasiadau modern i agoriadau wedi cael effaith negyddol ar gymeriad a golwg yr eiddo hyn.
- 2.2.4 Mae gan yr adeiladau Sioraidd a Fictoraidd statws uwch fanylion pensaernïol manylach, ac mae mwy o ffenestri a drysau gwreiddiol wedi goroesi ynghyd ag architrafau, mowldiau diferu, portshys, gwaith haearn, simneiau, stepiau a waliau terfyn. Ond mae rhai nodweddion gwreiddiol wedi cael eu colli.
- 2.2.5 Mae triniaethau terfyn megis waliau terfyn cerrig wedi cael eu nodi fel nodweddion pwysig o'r ardal gadwraeth. Mae rhai wedi cael eu disodli trwy ddefnyddio deunyddiau newydd amhriodol mewn manau.



Ffigurau 37 a 38 Dau dŷ o'r un cyfnod – cyfagos – un gyda ffenestri, drws a gwaith haearn gwreiddiol a wal derfyn gerrig wedi'u hymgorffori i greu mynediad gwell i'r anabl. Mae gan y llall ffenestri UPVC, drws, rendr concrit, ffenestr to, agoriadau drysau a ffenestri wedi'u haddasu modern a'r wal derfyn flaen wedi'i cholli.



Ffigurau 39 a 40 Enghreifftiau o waliau terfyn cerrig traddodiadol

2.2.6 Mae'n bosib bod Llandysul mewn sefyllfa unigryw o'i gymharu ag ardaloedd cadwraeth eraill yng Ngheredigion oherwydd ei thopograffi. Mae adeiladu terasau o eiddo preswyl ar ochr y llethr serth wedi arwain at allu gweld blaenluniau a thalcenluniau o'r briffordd a manau cyhoeddus mewn llawer man. Byddai hyn yn golygu y gallai Cyfarwyddyd Erthygl 4 fod yn gymwys i gefn eiddo yn ogystal â blaenluniau. Gallai rheoli newidiadau i dalcenluniau mewn modd cadarnhaol ddod â buddion mawr o ran gwella cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth.

2.3 Argymhelliad – Yn dibynnu ar ba ddeddfwriaeth sydd mewn grym adeg mabwysiadu

2.3.1 Dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Llandysul. Ni ellir cymhwyso hyn yn ôl-weithredol ac mae ond yn gymwys i dai annedd a gweddluniau sy'n wynebu priffordd, man agored neu ddyfrffordd. Dylid cymhwyso Erthygl 4(2) i'r hawliau datblygu a ganiateir canlynol:

- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth A: Ehangu, gwella neu newid arall i dŷ annedd (i gynnwys newidiadau i ffenestri, newidiadau i ddrysau, estyniadau, rendro, neu ail-rendro eiddo)
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth B: Ychwanegu to neu newid to
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth C: Newidiadau eraill i doeon
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth D: Codi neu adeiladu porth
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth G: Newid, codi, rendro neu symud simneiau
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth A: Codi, newid, rendro, neu symud waliau, ffensys, neu reiliau terfyn
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth C: Paentiad allanol adeiladau
- Atodlen 2 Rhan 11, Dosbarth C: Dymchwel waliau, ffensys neu reiliau terfyn

2.3.2 Sicrhau bod perchnogion, meddianwyr a swyddogion cynllunio yn ymwybodol o unrhyw Gyfarwyddyd Erthygl 4 newydd a'r cyfyngiadau ar hawliau datblygu a ganiateir.

2.3.3 Ymrwymo i gymryd camau gorfodi pan fydd angen.

3. ADOLYGIAD FFIN

3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Lluniwyd llawer o ffiniau ardaloedd cadwraeth cynnar yn gaeth iawn ac nid oeddent bob amser yn cydnabod cyfraniad cyfnodau datblygu diweddarach i gymeriad lle na gwerth patrymau lleiniau hanesyddol, er enghraifft. Mae'n bwysig adolygu ffiniau ardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd ac ystyried lle gallai fod angen gwneud addasiadau. Mewn rhai achosion mae ffiniau tir wedi newid neu mae datblygiadau modern da wedi digwydd.

3.2 Llandysul

3.2.1 Nid yw ffin yr ardal gadwraeth yn Llandysul wedi cael ei hymestyn ers iddi gael ei dynodi gyntaf yn 1988.

3.2.2 Mae'r cyfan o ran ganoloesol wreiddiol y dref a'r rhan fwyaf o'r datblygiadau ôl-ganoloesol diweddarach o ansawdd wedi'u cynnwys o fewn y ffin.

3.2.3 Lleolir yr anheddiad bach Pont-Tyweli dros y bont ar ochr ddeheuol afon Teifi yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n anheddiad sy'n gysylltiedig â thwf a datblygiad Llandysul. Tyfodd Pont-Tyweli yn bennaf fel anheddiad oherwydd diffyg tir datblygu addas yn Llandysul (sef y brif ardal breswyl a manwerthu) ar gyfer datblygu diwydiannol. Roedd terminws rheilffordd hefyd ym Mhont-Tyweli. Roedd, ac mae'r, ddau anheddiad bron yn ddi-dor ac yn cefnogi ei gilydd. Mae Pont-Tyweli yn rhan o leoliad yr ardal gadwraeth bresennol. Mae ganddi ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol a fyddai'n haeddu ei gadw.

3.3 Argymhelliad

3.3.1 Argymhellir bod Ceredigion a Chyngor Sir Gaerfyrddin yn cydweithio i ystyried manteision dynodi rhan o Bont-Tyweli yn ardal gadwraeth Llandysul / Pont-Tyweli a'u cysoni ar gyfer arfarniadau, adolygiadau a rheolaeth. Ceir enghreifftiau da o asedau hanesyddol yn cael eu rheoli ar draws awdurdodau, megis Clawdd Offa, Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon ac Ardal Gadwraeth Tŷ a Gerddi Talygarn (Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg). Dylai stent y ffin fod yn destun trafodaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus.



Ffig. 41 Y ddau anheddiad Llandysul a Phont-Tyweli ar yr argraffiad cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans (1886-8)

4. YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS

4.1 Cyflwyniad

- 4.1.1 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymwneud â rheoli ardaloedd cadwraeth o ddydd i ddydd trwy eu rôl yn y broses gynllunio. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ddyletswydd statudol i **gadw neu wella cymeriad neu olwg** ardaloedd cadwraeth ac mae angen iddynt graffu ar geisiadau cynllunio yn agos gyda'r amcanion hyn mewn golwg.
- 4.1.2 Gall gwybodaeth fanwl am agweddau arbennig ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol helpu perchnogion, meddianwyr, asiantau cynllunio a'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu ar y ffyrdd gorau o reoli newid cadarnhaol a mabwysiadu dull cyson.

- 4.1.3 Gall gwybodaeth neu ddehongliad cyhoeddus helpu i sicrhau bod pawb yn deall pam bod ardal yn arbennig. Mae pobl sy'n deall pam bod rhywbeth yn arbennig yn fwy tebygol o ofalu amdano a themlo eu bod am ofalu amdano. Gall hefyd helpu gyda'r cynnig twristiaeth a hybu buddsoddiad mewn ardal leol.

4.2 Llandysul

- 4.2.1 Nid oes Cynllun Rheoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Llandysul ar hyn o bryd. Cynhaliwyd asesiad byr o'r ardal ar gyfer cais am gyllid Menter Treftadaeth Treflun yn 2001. Yn anffodus ni fu'r cais hwn yn llwyddiannus.
- 4.2.2 Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am hanes y dref. Mae gan Llandysul (a'r Cylch) grŵp hanes lleol gweithgar ond mae'r wybodaeth ar ei wefan yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae'n trefnu rhaglen brysur o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd ac archif fawr o ffotograffau a phethau cofiadwy hanesyddol. Mae ychydig o fyrddau dehongli yn y dref, rhai wedi'u gosod gan y grŵp hwn, sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol a diddorol. Gosodwyd yr holl fyrddau ychydig flynyddoedd yn ôl a byddent yn elwa o gael eu diweddarau.



Ffig. 42 Un o'r paneli dehongli yn y dref

- 4.2.3 Mae nifer o lwybrau cerdded yn cychwyn ac yn gorffen yn Llandysul. Mae gŵyl gerdded a thafleuni cerdded hefyd i'w lawrlwytho gan gynnwys taflen llwybr tref hanesyddol.
- 4.2.4 Mae'r gymuned yn cynnal nifer o ddigwyddiadau bob blwyddyn ar amrywiaeth o bynciau a diddordebau, llawer ohonynt yn ymwneud â datblygiad hanesyddol y dref a'r ardal.
- 4.2.5 Mae'r unig fap sydd ar gael ar hyn o bryd ar wefan y Cyngor yn dangos Ardal Gadwraeth Llandysul wedi'i ymgorffori yn nogfennau'r CDLI. Nid oedd y trigolion y siaradwyd â nhw yn ystod yr asesiad yn ymwybodol o statws cadwraeth y dref.

4.3 Argymhellion

- 4.3.1 Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.
- 4.3.2 Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Llandysul ar gyfer trigolion a busnesau sy'n egluro beth sy'n bwysig am yr ardal, rheolaethau a beth mae'n ei olygu i fyw a gweithio yn yr ardal. Sicrhau bod hwn ar gael ar wefan y Cyngor hefyd.
- 4.3.3 Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth Cymru, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi a sefydliadau eraill, datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r ardal. Gallai enghreifftiau gynnwys canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio ffenestri a drysau hanesyddol, microgynhyrchu a'r canllawiau newydd ar inswleiddio waliau allanol.
- 4.3.4 Cynhyrchu canllawiau ar gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni ar gyfer pob ardal gadwraeth, adeiladau hanesyddol a rhestredig yng Ngheredigion. Gellid cynhyrchu hwn ar y cyd ag awdurdodau eraill neu adnoddau presennol megis Canolfan Tywi, Adeiladu Treftadaeth yng Nghymru neu'r Gynghrair Adeiladau Traddodiadol. Dylai'r canllawiau gwmpasu:
- **Cynnal a chadw:** Mae diffygion adeiladu yn effeithio ar gynaliadwyedd adeiladau hanesyddol yn y tymor hir. Mae addysgu ceidwaid adeiladau a chontractwyr yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, diogelu treftadaeth bensaernïol y rhanbarth, a chyflawni nodau cynaliadwyedd. Mae defnyddio deunyddiau a sgiliau traddodiadol priodol mewn modd amserol yn hanfodol bwysig i barhad adeiladau hanesyddol yn y tymor hir.
 - **Adeiladwaith traddodiadol a sut mae hen adeiladau'n gweithio:** *Yn gyffredinol diffinnir adeiladau traddodiadol fel y rhai a gafodd eu hadeiladu cyn 1919, gyda waliau solet (yn hytrach na waliau ceudod), gan ddefnyddio deunyddiau naturiol gan gynnwys cerrig, pridd, brics, pren a chalch. Mae'r term 'traddodiadol' yn cwmpasu amrywiaeth enfawr o fathau, arddulliau ac oedrannau adeiladu, o fythynnod cerrig i gestyll ac o dai tref i gapeli. Mae'r deunyddiau a'r technegau a ddefnyddir mewn adeiladu traddodiadol wedi creu'r adeiladau unigol, cyferbyniol ac idiosyncratig sy'n helpu i ddiffinio cymeriad unigryw ein trefi, pentrefi a thirweddau gwledig, a hunaniaeth y cymunedau sy'n byw ynddynt. Mae adeiladau hŷn yn defnyddio technegau adeiladu gwahanol i adeiladau newydd modern. Mae deall hyn a dysgu sut i ddefnyddio'r technegau priodol yn hanfodol*

i hirhoedledd ein hadeiladau hanesyddol.

- **Arbed ynni ac ôl-fffitio mewn adeiladau hanesyddol:** Dylai'r canllawiau gwmpasu: effeithlonrwydd ynni a pham ei fod yn bwysig – iechyd, newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon; Beth yw ôl-osod a pham fod angen agwedd arbennig ar adeiladau hŷn?; Opsiynau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol – e.e. defnydd, sicrhau dull tŷ cyfan, dewisiadau eraill yn lle newid ffenestri a drysau traddodiadol, pwysigrwydd gwresogi ac awyru, anadlwyedd ac inswleiddio, cynnal a chadw ac atgyweirio etc.

- 4.3.5 Mae'n amlwg bod gan y gymuned leol archwaeth a diddordeb yn hanes y dref. Gellid harneisio'r diddordeb hwn i helpu i ddatblygu cynllun dehongli mwy cydlynol ar gyfer y dref. Ar y cyd â chynllun marchnata, cyfathrebu a digwyddiadau gallai hyn helpu i gynyddu twristiaeth a datblygu Pwynt Gwerthu Unigryw (USP) y mae mawr ei angen er mwyn annog twristiaeth ac ymwelwyr.
- 4.3.6 Mae llawer o themâu y gellid eu datblygu i annog ymwelwyr dydd a thwristiaid tymor hwy. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud â hanes a datblygiad y dref ac wedi cael eu harchwilio yn yr arfarniad.
- 4.4.7 Mae gan Landysul lawer o flaenau siopau hanesyddol da ond mae angen atgyweirio a chadw rhai ohonynt, nid yw rhai yn eiddo manwerthu bellach, tra gellid gwella eraill yn sylweddol. Dylid diwygio a diweddarau'r canllawiau dylunio blaenau siopau presennol ar gyfer Aberystwyth er mwyn gallu eu defnyddio ym mhob ardal gadwraeth yng Ngheredigion. Gweithio gyda sefydliadau busnes lleol i ddsbarthu, darparu hyfforddiant a cheisio cyllid i gynorthwyo gyda gweithredu hyn.



Ffigurau 43 ac 44 Enghreifftiau o flaenau siopau traddodiadol da



Ffig. 45 Blaen siop hanesyddol lle gellid gwella'r arwyddion



Ffig. 46 Blaen siop y gellid ei wella trwy ddyluniad a'r dewis o ddeunyddiau

5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL

5.1 Cyflwyniad

- 5.1.1 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Gall y rhestr gynnwys pob math o ased hanesyddol — adeiladau, parciau, gerddi, henebion a safleoedd archeolegol — ar yr amod nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n ffurfiol.
- 5.1.2 Dylai'r asedau a nodir i'w cynnwys ar y rhestr wneud cyfraniad pwysig at hynodrwydd lleol a bod â'r potensial i gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd.
- 5.1.3 Dylai eu dewis fod yn seiliedig ar feini prawf clir, tystiolaeth leol gadarn ac ymgynghoriad cyhoeddus.
- 5.1.4 Rhaid ychwanegu rhestr fabwysiedig o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig at y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad ato. Wedi hynny rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ddatblygu polisiau cynllun lleol perthnasol y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau.
- 5.1.5 Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yma: <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf>.

5.2 Llandysul

5.2.1 Mae gan Llandysul ychydig o adeiladau hanesyddol sydd o arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol lleol arbennig ac sydd heb eu dynodi yn eu rhinwedd eu hunain.

5.2.2 Byddai cydnabod yr adeiladau hyn trwy eu cynnwys ar 'restr leol' yn:

- Cydnabod bod yr adeiladau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl leol
- Rhoi cyfle i'r gymuned gymryd rhan yn y gwaith o'u nodi a gofalu amdanynt yn briodol
- Caniatáu i'r Cyngor wneud cais am gyllid neu gynlluniau grant a fyddai'n darparu cyfleoedd adfywio ar gyfer adeiladau rhestredig lleol
- Galluogi ystyried newidiadau yn ofalus trwy'r broses gynllunio i sicrhau eu bod yn gadarnhaol ac nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar yr asedau, eu lleoliad na'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt.

5.3 Recommendation

5.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' a fyddai'n nodi'r meini prawf ar gyfer cynnwys adeiladau ar restr o'r fath a datblygu'r rhestr.

5.3.2 Dylai cymunedau lleol fod yn rhan o'r broses ddewis.

5.3.3 Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddatblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol.

5.3.4 Mae'r canlynol yn rhestr o adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig (nad ydynt eisoes wedi'u dynodi) fel y nodwyd yn yr arfarniad y gellid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys. Dylid nodi bod llawer o adeiladau eraill sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal ond nad ydynt efallai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys ar restr leol ar hyn o bryd.

- Yr Hen Ysgol Wladol a'r Llyfrgell (Gorsaf yr Heddlu)
- Bradford House, Stryd y Brenin
- Canolfan Ieuencid Tysul, Lôn Wesley – yr hen Gapel Wesleidd Peniel
- Myfyrgell House, Bryn Seion
- Capel-y-Graig
- Bythynnod Penwalkau, Teras Marmor
- Yr Hen Ysgol Gynradd Sirol
- 1-3 Sunnyhill – yr Hen Ysgol Brydeinig ac Ysgol Fwrdd
- Channings, Stryd yr Eglwys – hen siop
- 4/5 Stryd y Bont – Cyfreithwyr Williams a Bourne

- Broniestyn – ar y gornel rhwng Lôn Channing a Stryd y Brenin
- Greystones, Y Stryd Fawr



Ffig. 47 Bradford House, Stryd y Brenin



Ffig. 48 Bythynnod Penwalkau, Teras Marmor

6. YSTYRIED GORFODI

6.1 Cyflwyniad

- 6.1.1 Mae gan orfodi rôl allweddol i'w chwarae wrth ddiogelu ardaloedd cadwraeth.
- 6.1.2 Mae'n hanfodol sicrhau bod holl berchnogion a meddianwyr adeiladau'n deall lle mae cyfyngiadau ar ddatblygu, beth yw eu hawliau datblygu a ganiateir, a'u bod yn gallu cysylltu â'r ACLI am gyngor.
- 6.1.3 Mae monitro rheolaidd yn ddull mwy rhagweithiol ar gyfer ACLlau a allai helpu i leihau nifer y tramgwyddau.
- 6.1.4 Trafod a negodi gyda'r perchennog/meddiannwr yw'r cam cyntaf i'w gymryd mewn unrhyw achos a all arwain at ateb addas heb fod angen cymryd camau gorfodi.

6.2 Llandysul

- 6.2.1 Nid yw unrhyw wybodaeth adolygiad sylfaen gynhwysfawr ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Llandysul.
- 6.2.2 Mae'n bosibl na fydd perchnogion a meddianwyr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir a lle gallai fod cyfyngiadau ar ddatblygu.
- 6.2.3 Cydnabuwyd bod colled sylweddol o ffenestri a drysau traddodiadol ar draws yr ardal gadwraeth ond mae ffenestri, drysau, portshys, gwaith haearn a nodweddion pensaernïol eraill hefyd wedi goroesi. Ar hyn o bryd nid yw addasu neu ddisodli'r nodweddion hyn yn cael ei reoli ac eithrio ar Adeiladau Rhestredig.

6.3 Argymhelliad

- 6.3.1 Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.
- 6.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion.
- 6.3.3 Dylai'r Cyngor gymryd camau i sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau.
- 6.3.4 Dylid cynnal arolwg ffotograffig dilynol yn ystod yr adolygiad nesaf o'r arfarniad ardal gadwraeth, bob pum mlynedd yn ddelfrydol.

7. CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO A GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL

7.1 Cyflwyniad

- 7.1.1 Gall ardaloedd hanesyddol fod yn ffocws pwysig ar gyfer adfywio cymunedol. Mae eu cymeriad unigryw yn ased a all greu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau Cymru. Gall adfywio helpu i greu ymdeimlad o le a hynodrwydd lleol, a chefnogi sgiliau gwerthfawr ac annog buddsoddiad.
- 7.1.2 Mae llawer o ardaloedd hanesyddol wedi dioddef o ddirywiad mewn gweithgarwch economaidd, sy'n arwain at adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio a buddsoddiad isel. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen cymryd camau wedi'u targedu i ddatgloi potensial a

gwireddu buddion ehangach. Gall gweithgareddau adfywio roi ystyr a pherthnasedd newydd i asedau hanesyddol, gan roi bywyd newydd i adeiladau ac ardaloedd sy'n cael eu tanddefnyddio a'u tanbriso.



Ffig. 49 Gall eiddo manwerthu gwag o ddiddordeb hanesyddol mewn lleoliadau amlwg annog buddsoddiad

- 7.1.3 Yn ogystal â'r offer gorfodi amrywiol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol, mae cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwella'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cenedlaethol, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau lleol megis Cyngorau Tref a fforymau busnes.
- 7.1.4 Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn aml yn ymwneud â seilwaith ffisegol y dref, gan gynnwys priffyrdd, gwaith gan ymgymerywyr statudol, iechyd yr amgylchedd, tai ac eraill.
- 7.1.5 Gall ymgysylltu â'r gymuned a mentora hefyd greu newid cadarnhaol o fewn ardaloedd dynodedig.

7.2 Llandysul

- 7.2.1 Nid yw Llandysul wedi elwa, fel y mae ardaloedd cadwraeth eraill, o'r cynlluniau adfywio trefi mwy. Cafwyd cais am gyllid Menter Treftadaeth Treflun yn 2001 ond yn anffodus ni fu'n llwyddiannus.
- 7.2.2 Mae Llandysul yn dioddef, yn debyg i'r rhan fwyaf o drefi marchnad bach Gorllewin Cymru, siopau lleol a chyfleusterau lleol yn y dref yn cau a dirywiad araf mewn ymwelwyr a defnydd lleol.
- 7.2.3 Mae sawl eiddo manwerthu gwag yn y dref, llawer ohonynt mewn lleoliadau amlwg. Mae'r ysgol ac un o'r meddygfeydd wedi symud i gyrion y dref, mae'r llyfrgell a'r banciau i gyd wedi cau.
- 7.2.4 Mae gan Landysul gymuned ragweithiol ac ymroddedig sydd wedi'i hymgorffori yn Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen a'r Grŵp Busnes. Mae'r partneriaethau hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau cyllid ar gyfer gwaith gwella yn y dref, ac ar hyn o bryd maent yn hysbysebu am Swyddog Datblygu Digwyddiadau Cymunedol a fydd yn cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae llawer o grwpiau a chlybiau cymdeithasol gweithgar ac mae'r gymuned gyfan yn gwneud ei gorau i hybu twristiaeth, annog busnesau newydd a gwella cyfleusterau lleol.
- 7.2.5 Mae gan Landysul hanes unigryw a diddorol a chyfoeth o dreftadaeth adeiledig yn y dref a'r cyffiniau y gellir adeiladu arno. Byddai creu gwelliannau yn y parth cyhoeddus i adeiladau unigol a'r amgylchedd cyffredinol yn helpu i annog buddsoddiad, rhoi ymdeimlad o le a gwella'r rhagolygon ar gyfer cynyddu twristiaeth a defnydd lleol.
- 7.2.6 Byddai Llandysul yn elwa o greu Pwynt Gwerthu Unigryw ei hun a gallai hyn fod yn seiliedig ar hanes a datblygiad y dref, ei hasedau hanesyddol a digwyddiadau a gweithgareddau

hanesyddol, ar y cyd â mentrau llwyddiannus mwy newydd megis y digwyddiadau garddio a'r clybiau chwaraeon ac ieuencid.

7.3 Argymhellion

- 7.3.1 Cynghorir y dylid cadw ac aildefnyddio eiddo manwerthu sy'n bodoli eisoes, yn enwedig lle maent wedi'u lleoli mewn adeiladau hanesyddol yng nghanol y dref a / neu â blaenau siopau hanesyddol. Mewn partneriaeth â'r gymuned leol, gallai'r Cyngor Sir geisio cyllid ar gyfer cadwraeth unedau manwerthu a gweld lle gellir goresgyn unrhyw rwystrau i'w haildefnyddio, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio a threftadaeth. Dylid hefyd ymchwilio i gyfleoedd i wella blaenau siopau ac arwyddion mwy newydd.
- 7.3.2 Mae syniadau ar gyfer gwella'r parth cyhoeddus wedi cael eu nodi trwy'r Cynllun Lle drafft a'r gymuned leol. Ar hyn o bryd mae cymysgedd o arddulliau a deunyddiau, er y gellir ystyried bod llawer o'r rhain yn briodol. Mae digon o feinciau o ansawdd da er y gall fod angen adnewyddu rhai ohonynt. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i osod meinciau mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf anodd eu cyrraedd, megis hanner ffordd i fyny ac ar ben rhai o'r lonydd a'r llwybrau serth. Mae angen cydlynu dyluniad deunyddiau o ansawdd uchel ar gyfer eitemau megis bolardiau, biniau gwastraff ac ati. Gellid gwella arwyneb palmentydd.
- 7.3.3 Yn gyffredinol mae'r lonydd a'r llwybrau sy'n cysylltu terasau gwahanol y dref yn lleoedd deniadol a diddorol. Gellid gwneud gwelliannau i rai ohonynt o ran wynebaw a chynnal a chadw, a gallent yn eu tro gael eu defnyddio i ysbrydoli digwyddiadau ac annog twristiaeth yn debyg iawn i Snickleways yng Nghaerefrog neu Steep Hill yn Lincoln.
- 7.3.4 Dylid annog gwelliannau i ardaloedd cefn eiddo, yn enwedig i dyluniad estyniadau cefn a darparu garejis. Oherwydd topograffeg Llandysul mae'r ardaloedd hyn yn weladwy i'r cyhoedd ac yn effeithio ar gymeriad cyffredinol canol y dref. Gallai cystadleuaeth 'sied neu garej orau'r flwyddyn' annog gwelliannau, gallent fod yn ddigwyddiad lleol. Cysylltu â'r 'tŷ lleiaf yng Nghymru' (sydd bellach wedi'i ddymchwel).
- 7.3.5 Mae rhai safleoedd canol tref a allai gael eu cynnig i'w hailddatblygu, megis hen safle Banc Barclays. Dylai'r Cyngor lunio canllawiau dylunio ar gyfer safleoedd o'r fath er mwyn sicrhau y bydd unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn cadw ac yn gwella'r ardal gadwraeth a lleoliad adeiladau rhestredig.
- 7.3.6 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod gan berchnogion a defnyddwyr adeiladau yr offer angenrheidiol i wneud eu gwaith atgyweirio ac adnewyddu priodol eu hunain. Gall hyn gynnwys canllawiau, hyfforddiant a mentora.



7.3.7 Dylai'r Cyngor gysylltu â pherchnogion adeiladau eiddo gwag hirdymor i sefydlu'r rhesymau dros eu diffyg defnydd a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ceisiadau ar gyfer cynlluniau ariannu adfywio.

Ffig. 50 Gallai ailddatblygu hen safle Banc Barclays wella'r ardal gadwraeth

- 7.3.8 Yn unol â Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Aberystwyth, dylai'r Cyngor geisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sefydlu sefydliad hyfforddi Cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau megis Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE), Prosiect Ystrad Fflur, Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion (HCT), Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, neu'r tebyg. Gallai hyn hyfforddi pobl leol mewn technegau cadwraeth, creu swyddi sy'n darparu gwasanaethau cadwraeth lleol i berchnogion a meddianwyr yn y trefi a'r ardaloedd cyfagos. Gallai hyn ddarparu adnodd gwerthfawr a chynaliadwy a fyddai'n cefnogi adfywio canol trefi ac ardaloedd cadwraeth Ceredigion, yn ogystal â darparu rhywfaint o gyflogaeth, uwchsgilio perchnogion a meddianwyr, a helpu i gadw a gwella pensaerniaeth hanesyddol y sir. Gellid defnyddio model tebyg i ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau Adfer Ban a Chwm Sir Gaerfyrddin.
- 7.3.9 Dylai'r Cyngor weithio gyda'r Cyngor Tref i weithredu ar awgrymiadau'r Cynllun Lle i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.
- 7.3.10 Ar y cyd â'r gymuned, datblygu cynllun dehongli, marchnata a chyfathrebu a fydd yn helpu i annog pobl leol i ddefnyddio'r dref ac annog ymwelwyr i'r ardal.
- 7.3.11 Rhaid i dîm rheoli datblygu'r Cyngor annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth, yn enwedig trwy ddefnyddio'r broses ymholi cyn ymgeisio a sicrhau bod y CCA presennol yn addas i'r diben. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu ac ail-ryddhau'r CCA a'u hyrwyddo yn enwedig o fewn ardaloedd dynodedig.
- 7.3.12 Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig, a bod adnoddau ar gael ar gyfer cymryd camau gorfodi os a phan fo angen.

- 7.3.13 Os oes angen, cynnig hyfforddiant i Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. Mae rhai cyhoeddiadau a chanllawiau ardderchog ar gael fel *'Streets for All'* Historic England (<https://historicengland.org.uk/images-books/publications/streets-for-all/heag149-sfa-national/>).
- 7.3.14 Ar y cyd â'r Adran Briffyrdd, llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Bydd yn rhoi sylw i wynebaw, rheiliau diogelwch, dodrefn stryd, goleuadau a nodweddion ffyrdd a diogelwch priffyrdd.
- 7.3.15 Gyda'r gymuned leol, sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella'r ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr megis codi sbwriel, nodi arwyddion i'w symud, nodi eiddo gwag ac ati (gweler: <https://www.keepbritaintidy.org/sites/default/files/resources/How%20To%20Organise%20A%20Litter-Picking%20Event.pdf>). Gallai hefyd wneud sylwadau ar gynigion datblygu mewn ardaloedd cadwraeth a dwyn unrhyw faterion yn y dyfodol o fewn yr ardal gadwraeth at sylw'r Cyngor. Dylai'r Cyngor ddarparu mentora a hyfforddiant.
- 7.3.16 Ystyried parhau â'r cynllun parcio di-dâl presennol a rhoi cyhoeddusrwydd ehangach iddo er mwyn annog pobl leol i ddefnyddio'r maes parcio. Byddai hyn hefyd yn annog mwy o bobl i ymweld a siopa yng nghanol y dref ac aros yn hwy.
- 7.3.17 Gallai themâu, dehongliadau a digwyddiadau hanesyddol gynnwys:
- Defnydd o'r afon – Gwyllo dyfrgwn (yn hytrach na hela dyfrgwn!), pysgota eog a sewin, canŵio, llwybrau cerdded ar lan yr afon, pŵer dŵr (Y Pwerdy), cymdeithas bysgota, Llandysul Paddlers
 - Cristnogaeth gynnar yng Nghymru, cerrig arysgrifedig, ogam a safleoedd, Sant Tysul, Tyddewi, Sant Gelert
 - Pobl enwog: Dylan Thomas, Elen (Mam Owain Glyndŵr), William Thomas
 - "Gwilym Marles"
 - Y gêm hanesyddol Cnapan (pêl-droed), clybiau chwaraeon a champau / campfeydd, Calon Tysul, defnyddio'r bryniau a'r lonydd serth i ymarfer a chadw'n heini (mae tua 10,000 o gamau os ydych chi'n cerdded yr holl ffyrdd a lonydd yn yr ardal gadwraeth!)
 - Gwasg Gomer a llenorion/beirdd – Dylan Thomas, Gwilym Marles, T. Llew Jones, Menna Elfyn, Fflur Dafydd
 - Diwydiant gwlân Cymru, amaethyddiaeth, marchnad da byw, crefftau lleol, clwb garddio
 - Cerddoriaeth Gymraeg, telynau, corau, Sioned James, Aled Hall, Cate le Bon, cerddoriaeth werin Gymreig, dawnsio a thwmpath, Gŵyl Tysul, Fflur Dafydd



Ffig. 51 Gellid gwneud mwy o gysylltiadau hanesyddol yr afon, gan gynnwys chwaraeon a digwyddiadau

8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI

8.1 Cyflawniad

- 8.1.1 Un o amcanion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys eiddo masnachol yn amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus, felly gall hysbysebu awyr agored fod yn hollbwysig i fywiogrwydd masnachol. Mae'r mathau o hysbysebion sydd angen caniatâd cynllunio yn cynnwys hysbysebion wedi'u goleuo ar eiddo busnes a hysbysebion ar hysbysfyrdau o amgylch safleoedd datblygu.
- 8.1.2 Gall awdurdodau hefyd ddewis mabwysiadu polisïau rheoli hysbysebion fel rhan o'u cynigion ar gyfer cadw neu wella ardaloedd cadwraeth, er enghraifft, trwy ddynodi ardaloedd rheoli hysbysebion arbennig. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio rheolaethau o'r fath mewn modd hyblyg mewn ardaloedd cadwraeth i warchod y nodweddion hynny sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol a arweiniodd at y dynodiad.

8.2 Llandysul

8.2.1 Mae gan yr ardal gadwraeth graidd masnachol fach. Mae'r ardal hon yn cynnwys ffryntiadau siopau hanesyddol, tafarndai ac adeiladau preswyl sydd wedi goroesi ac sydd wedi'u disodli. Mae rhywfaint o ffasgia a hysbysebion siopau o ansawdd gwael neu wedi'u dylunio'n wael.

8.3 Argymhellion

8.3.1 Ni ystyrir bod angen ardal o reolaeth hysbysebu arbennig yn Ardal Gadwraeth Llandysul ar hyn o bryd. Yn hytrach dylai trafodaethau â pherchnogion a rheolwyr siop fod yn flaenoriaeth.

8.3.2 Adolygu canllawiau blaen siopau Aberystwyth 2013 i ymdrin ag arfer da ym mhob ardal gadwraeth ac ystyried ail-ryddhau'r canllawiau gyda hyrwyddiad ychwanegol ledled ardaloedd cadwraeth Ceredigion.

9. ADEILADAU MEWN PERYGL

9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Cadw'r defnydd o adeiladau a'u cynnal yw conglaen rheolaeth lwyddiannus o ardal gadwraeth. Mae adeiladau sy'n cael eu hesgeuluso a'u tanddefnyddio yn niweidio bywiogrwydd ac atyniad ardaloedd cadwraeth.

9.2 Adeiladau Gwag yn Llandysul

9.2.1 Mae nifer fach o adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth sy'n wag ar hyn o bryd a rhai sy'n effeithio'n negyddol ar gymeriad a golwg yr ardal.

- Siopau a mannau manwerthu gwag
- Richmond House (Adeilad Rhestredig Gradd II)
- Hen fanciau
- Yr Hen Ysgol Gynradd Sirol

9.3 Argymhellion

9.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Byddai hyn yn amlinellu dull strategol o nodi a rheoli'r adeiladau hyn. (gweler: <https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/listed-buildings/listed-buildings-risk#section-managing-listed-buildings-at-risk>).



Ffig. 52 Mae rhai eiddo a arferai fod yn wag wedi cael eu haildefnyddio'n llwyddiannus fel unedau manwerthu newydd. Gall pensaernïaeth dda eu gwneud yn ddeniadol i fusnesau newydd

- 9.3.2 Mae'n ofynnol i berchnogion adeiladau rhestredig eu cadw mewn cyflwr rhesymol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau i gyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill mewn achosion eithafol. Os bydd trafodaethau'n aflwyddiannus, dylai'r Cyngor ystyried defnyddio ei bwerau statudol.
- 9.3.3 Dylai'r Cyngor, er mwyn cwmpasu'r holl ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig ac eiddo heb eu dynodi, ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynlluniau a chyrsgiau hyfforddi – hyfforddi meddianwyr a pherchnogion mewn arferion cadwraeth da, yn enwedig atgyweirio a chynnal a chadw gyda deunyddiau priodol. Gweler Cynllun Rheoli Cadwraeth Aberystwyth am awgrymiadau ar gyfer cynllun llawn. Byddai dosbarthu cyhoeddiad megis 'Stitch in Time' (IHBC a SPAB) i'r holl eiddo yn ardaloedd cadwraeth Ceredigion yn ddechrau da i'r broses hon.

10. COED, TIRWEDD A MANNAU AGORED

10.1 Cyflwyniad

- 10.1.1 Mae coed yn elfen bwysig o gymeriad ac amwynder llawer o ardaloedd cadwraeth ac — ynghyd â manau agored gwyrdd, gan gynnwys gerddi preifat — mae ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae mewn gwasanaethau ecosystem. I gyd-fynd â'r rheolaethau dros goed mewn

ardaloedd cadwraeth, mae'n syniad da i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisiau lleol penodol ar gyfer gwarchod a rheoli coed ac elfennau eraill o'r amgylchedd naturiol, megis gwrychoedd ac ymylon ffyrdd.

- 10.1.2 Gallai strategaeth ar gyfer coed gynnwys asesiad o'u gwerth o ran amwynder a bioamrywiaeth, a'u cyfraniad at wasanaethau ecosystem cyn bod pwysau i'w gwaredu. Gellid integreiddio gwarchod a rheoli coed a manau agored mewn strategaeth seilwaith gwyrdd.

10.2 Llandysul

- 10.2.1 Mae gan Landysul goed unigol ac ardaloedd o orchudd coed o fewn yr ardal gadwraeth sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ei chymeriad a'i golwg. Mae llawer o erddi preifat hefyd sy'n cyfrannu at gymeriad 'gwyrdd' yr ardal.
- 10.2.2 Yn ogystal â'r amgylchedd hyfryd mae llawer o fannau gwyrdd o fewn y dref hefyd. Mae'r meysydd chwarae/chwaraeon, lle chwarae'r plant, mynwent Sant Tysul, llwybr cerdded coediog ar lan yr afon i'r de o'r dref, a'r ardd fach i'r gogledd ar gyffordd y Stryd Fawr a Lôn Letty i'w nodi'n arbennig.

Ffig. 53 Mae'r caeau chwarae a'r lle chwarae yn fannau gwyrdd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth



10.2.3 Mae coridor yr afon yn amgylchedd a man hamdden arbennig o bwysig.

10.2.4 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu Strategaeth ar gyfer Gwyrddu Trefi ac mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi cael ei gynnal gan ymgynghorwyr.

10.3 Argymhellion

10.3.1 Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig.

10.3.2 Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd.

10.3.3 Ystyried comisiynu adroddiad coed ar wahân a / neu gynnwys y gymuned leol wrth adnabod a mapio coed a grwpiau o goed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.

10.3.4 Diogelu coed, manau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLI.

10.3.5 Ystyried gwelliannau i lwybr coediog yr afon yn ne'r ardal gadwraeth, yn enwedig o ran wyneb (mynediad) a dehongliad / defnydd o ardal y chwarel.



Ffig. 54 Llwybr cerdded y chwarel ym mhen deheuol yr ardal gadwraeth

11. MONITRO AC ADOLYGU

11.1 Introduction

- 11.1.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu ardaloedd cadwraeth presennol 'o bryd i'w gilydd' – yn gyffredinol ystyrir mai bob pump i ddeng mlynedd yw'r arfer gorau.
- 11.1.2 Dylai'r adolygiad sefydlu'r cynnydd a wnaed ers yr arfarniad blaenorol a dylai gadarnhau neu ailddiffinio materion o ddiddordeb arbennig a hollbwysig. Dylai'r adolygiad hefyd adolygu'r cynllun rheoli a darparu argymhellion newydd lle bo'n briodol.
- 11.1.3 Mae monitro newid yn hanfodol er mwyn gallu gwerthuso effaith dynodiad a llwyddiant strategaethau rheoli o ran cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.
- 11.1.4 Mae Cadw o'r farn mai'r llinell sylfaen ar gyfer adolygiad cyfnodol yw arolwg ffotograffig llawn sy'n cofnodi adeiladau o'r stryd, yn ogystal ag elfennau eraill o gymeriad, gan gynnwys coed, gerddi, ffiniau a golygfeydd. Mae lle i gynnwys grwpiau cymunedol lleol wrth wneud y gwaith hwn.

11.2 Llandysul

- 11.2.1 Ar hyn o bryd nid oes gan Cyngor Sir Ceredigion Gynllun Rheoli ar gyfer yr ardal gadwraeth Llandysul.
- 11.2.2 Mae'r Cyngor newydd benodi Swyddog Cynllunio newydd gyda chyfrifoldeb am gadwraeth.

11.3 Argymhellion

- 11.3.1 Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r arfarniad a'r cynllun rheoli hwn fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.
- 11.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf.
- 11.3.3 Dylai'r Cyngor gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol, lle bo modd.
- 11.3.4 Dylai'r Cyngor sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.
- 11.3.5 Dylai'r Cyngor barhau i hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng cyngorau lleol, adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

GWEITHREDU / ARGYMHELLION	CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID	BLAENORIAETH
Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.	CSC – Treftadaeth a Pholisi	Uchel 0-1 flwyddyn
Dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4(1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Llandysul.	CSC – Treftadaeth a Pholisi Y gymuned leol / Cynghorau Tref a Chymuned	Uchel 0-1 flwyddyn
Gweithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i ystyried ymestyn ffin yr ardal gadwraeth i Bont-Tyweli i greu Llandysul / Pont-Tyweli fel ardal gadwraeth traws awdurdod.	CSC – Treftadaeth a Pholisi Cyngor Sir Caerfyrddin TCC Y gymuned leol	Uchel 0-1 flwyddyn
Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.	CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol	Uchel 0-1 flwyddyn Parhaus
Ymrwymiad i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion (Siarter Gorfodi neu'r tebyg). Trafod â'r perchnogion ynglŷn â thor rheolau. Cyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill yn ôl yr angen. Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig.	CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol Y gymuned leol	Uchel -0-1 flwyddyn Parhaus
Sicrhau bod cynlluniau adfywio a chynlluniau eraill yn defnyddio egwyddorion dylunio ar sail treftadaeth i sicrhau bod arwyddocâd yr ardaloedd hyn yn llywio datblygiad unrhyw gynigion. Llundio briffiau dylunio ar gyfer safleoedd datblygu a mewnlenni posibl o fewn ac yn lleoliad yr ardal gadwraeth. Annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth. Ystyried adolygu CCA perthnasol presennol.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Rheoli Datblygu Cynghorau Tref a Chymuned Y gymuned leol	Uchel 0-1 flwyddyn Parhaus
Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig. Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd.	CSC – Ecoleg, Polisi a Rheoli Datblygu Y gymuned leol	Uchel – parhaus
Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLI a rheoli datblygu. Nodi cyfleoedd ar gyfer plannu coed, Gorchmynion Cadw Coed ac annog cyfranogiad yn y Cynllun Warden Coed.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Ecoleg a Rheoli Datblygu Y gymuned leol	Uchel – parhaus

GWEITHREDU / ARGYMHELLION (AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI)	CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID	BLAENORIAETH
Sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.	CSC	Uchel – parhaus
Hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.	CSC Cynghorau Tref a Chymuned Y gymuned leol	Uchel – parhaus
Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Llandysul. Sicrhau bod pob perchennog a deiliad yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau, yn enwedig os gwneir y Cyfarwyddyd Erthygl 4.	CSC – Treftadaeth, Ecoleg a Pholisi Y gymuned leol	Canolig 2-3 blynedd
Adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i gwmpasu arfer da ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion ym mhob ardal gadwraeth. Ceisio cyllid ar gyfer rhaglen grantiau blaenau siopau ac arwyddion. Ystyried mesurau gorfodi yn ôl yr angen.	CSC – Polisi a Threftadaeth Awdurdodau Lleol eraill, Swyddog Cadwraeth De a Chanolbarth Cymru	Canolig 2-3 blynedd
Sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig'. Datblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol.	CSC – Treftadaeth a Pholisi Y gymuned leol	Canolig 2-3 blynedd
Ystyried parhau â'r cynllun parcio am ddim i annog pobl leol i ddefnyddio'r maes parcio presennol a rhoi cyhoeddusrwydd ehangach iddo.	CSC	Canolig 2-3 blynedd
Datblygu a gweithredu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Tai Y gymuned leol	Canolig 2-3 blynedd a pharhaus
Ceisio cyllid ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau cynnal a chadw, atgyweirio, adfywio a hyfforddi (gweler 7.3) ar y cyd â'r isod o bosib.	CSC – Treftadaeth a Pholisi, Adfywio	Canolig 2-3 blynedd a pharhaus
Ceisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sefydlu canolfan hyfforddi cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.	CSC – Adfywio, Treftadaeth Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad Ymchwil Adeiladu, Prosiect Ystrad Fflur Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT), Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol ac ati	Canolig 2-3 blynedd a pharhaus

GWEITHREDU / ARGYMHELLION (AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI)	CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID	BLAENORIAETH
Sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach i wella'r ardal gadwraeth a hefyd rhoi sylwadau ar gynigion datblygu. Nodi safleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol.	CSC – Treftadaeth, Polisi Cynghorau Tref a Chymuned Y gymuned leol	Canolig 2-3 blynedd a pharhaus
Datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth ar gyfer ardaloedd cadwraeth (e.e. ffenestri hanesyddol, microgynhyrchu, insiwleiddio muriau allanol, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni ac ati.)	CSC – Treftadaeth Awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi	Isel 3-5 mlynedd
Datblygu a gweithredu cynllun strategol ar gyfer gwella parth cyhoeddus, lonydd cefn, strydoedd a llwybrau troed. Ceisio cyllid ar gyfer gwelliannau.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Prifffyrdd Cynghorau Tref a Chymuned	Isel 3-5 mlynedd
Prifffyrdd – llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Hyfforddiant treftadaeth i Swyddogion Prifffyrdd, yn ôl yr angen.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio a Phrifffyrdd Llywodraeth Cymru?	Isel 3-5 mlynedd
Datblygu cynllun dehongli, marchnata, cyfathrebu a digwyddiadau a fyddai'n helpu i gynyddu twristiaeth a datblygu Pwynt Gwerthu Unigryw (USP) ar gyfer Llandysul.	CSC – Polisi, Adfywio Cynghorau Tref a Chymuned Y gymuned leol Ymgynghorwyr?	Isel 3-5 mlynedd
Ystyried ffyrdd o wella golwg garejis a siediau, e.e. cystadleuaeth 'sied neu garej orau'r flwyddyn'.	CSC – Polisi, Adfywio	Isel 3-5 mlynedd
Ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf. Arolwg ffotograffig dilynol fel rhan o'r adolygiad nesaf. Cadw'r Cynllun Gweithredu yn gyfoes a chyhoeddi cynnydd. Cynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol.	CSC – Polisi a Threftadaeth Ymgynghorwyr	Isel 5-10 mlynedd

ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH**Deddfwriaeth a Chanllawiau**

- Cadw (2011) 'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles%20for%20the%20sustainable%20management%20of%20the%20historic%20environment%20of%20Wales.pdf
- Cadw (2017) 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Setting%20of%20Historic%20Assets%20in%20Wales%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Historic%20Character%20in%20Wales%20%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN>
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion (CDLI1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) CCA*
Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990): <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents>
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents>
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol: <https://www.gov.wales/technical-advice-note-tan-24-historic-environment>

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021): https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf

Llyfryddiaeth

Anon (heb ei ddyddio) Llandysul Town Historic Walk

Anon. (1913) 'Carved Work in Cardiganshire Churches' yn *Nhrafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi Cyfrol I*.

Anon. (1922) 'Church Restorations', yn *Nhrafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi Cyfrol II*.

Austin, D and Bezant, J. (2019) 'The Medieval Landscapes of Cardiganshire' in *Cardiganshire County History Vol 2 – Medieval and Early Modern Cardiganshire*

Cadw et al (1998) *Cofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru*

Cyngor Sir Ceredigion (wedi'i ddiweddarau) *Cais Menter Treftadaeth Treflun Llandysul* Cyngor Sir Ceredigion (2019) *Cynllun Lle Llandysul* Collard, S. A (1907) The History of Cardiganshire.

Davies, W.J. (1896) *Hanes Plwyf Llandyssul* [The History of Llandysul], cyfieithwyd gan Ivor Griffiths]

Hughes, I. T., Howells, A., and John, I. D. (1978) *St Tysul's Church, Llandysul: A Short History and Guide*

Hughes, I.T., (1957) 'The Background of Llandysul' yn *Nhrafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi Cyfrol III Rhif 2, 1957*

Lewis, S. (1833) *Topographical Dictionary of Wales*

Ludlow, N (1988) *The Welsh Historic Churches Project: Ceredigion Churches 1996-7* (Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed)

Meyrick, S.R. (1810) *The History and Antiquities of the County of Cardigan*

Ogilvy, J (1675) *Britannia*

Rees, W., (1932) *South Wales and the Border in the XIVth century*

Soulsby, I. (1983) *The Towns of Medieval Wales – A study of their history, archaeology and early topography*

Gwefannau ac Adnoddau Rhyngrwyd

<https://archwilio.org.uk/>

<https://archives.wales/>

<https://www.british-history.ac.uk/>

<https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru/search-cadw-records>

<https://ceredigionhistory.wales/llandysul/>

<https://coflein.gov.uk>

<https://www.darganfodsirgar.com/media/2492/llandysul.pdf>

<https://datamap.gov.wales/>

<https://discovery.nationalarchives.gov.uk/>

<https://dyfedarchaeology.org.uk/HLC/drefachfelindre/afonteifi.htm>

<https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/discovery/projects/churches/st-tysul-llandysul-ceredigion/>

<https://www.genuki.org.uk/big/wal/CGN/Llandysul>

<https://gomerprinting.co.uk/>

<https://www.google.com/maps/>

<https://www.hanesllandysulhistory.co.uk/local-history/llandysul-history.html>

<https://llandysul-paddlers.org.uk/>

<https://www.llandysul-ponttyweli.co.uk/local-history>

<https://www.owain-glyndwr.wales/>